

Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016:

Gwaith craffu ar ôl deddfu

Ebrill 2024



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/Seneddlechyd

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**

E-bost: **Seneddlechyd@senedd.cymru**

Twitter: **[@Seneddlechyd](https://twitter.com/Seneddlechyd)**

© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2024

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016:

Gwaith craffu ar ôl deddfu

Ebrill 2024



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/Seneddlechyd

Aelodau cyfredol y Pwyllgor



**Cadeirydd y Pwyllgor:
Russell George AS**
Ceidwadwyr Cymreig



Mabon ap Gwynfor AS
Plaid Cymru



Gareth Davies AS
Ceidwadwyr Cymreig



Sarah Murphy AS
Llafur Cymru



Jack Sargeant AS
Llafur Cymru



Joyce Watson AS
Llafur Cymru

Mynychodd yr Aelod a ganlyn fel dirprwy yn ystod gwaith craffu ar y Bil:



Vikki Howells AS
Llafur Cymru

Cynnwys

Argymhellion.....	5
1. Cefndir.....	7
Prif elfennau'r Ddeddf.....	8
Ein hymchwiliad.....	9
2. Gweithrediad ac effeithiolrwydd y Ddeddf hyd yma.....	10
Adran 25B a'r dull trionglog.....	13
Adran 25A.....	16
Seilwaith adrodd a seilwaith digidol.....	17
Gwerthuso'r Ddeddf.....	20
Ein barn ni.....	24
3. Y gweithlu.....	28
Effaith y Ddeddf ar y gweithlu.....	28
Cydymaith nyrsio cofrestredig.....	31
Costau.....	33
Ein barn ni.....	35
4. Dyfodol y Ddeddf.....	37
Ymestyn y Ddeddf hon i leoliadau pellach.....	37
A yw'r Ddeddf wedi ei diogelu at y dyfodol?.....	42
Ein barn ni.....	45
Atodiad 1: Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig.....	48
Atodiad 2: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar.....	49

Argymhellion

Argymhelliad 1. Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddarparu eglurder ynghylch goblygiadau diffyg cydymffurfio ag adrannau 25B a 25C o'r Ddeddf ac ystyried cynnwys darpariaeth ar gyfer hyn yn Nhrefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd GIG Cymru..... Tudalen 25

Argymhelliad 2. Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ysgrifennu atom o fewn 6 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn i roi diweddariad am y cynnydd a wneir gan y byrddau iechyd o ran arddangos gwybodaeth mewn modd cyson am lefelau staff nyrsio ar wardiau lle mae adran 25B yn berthnasol. Tudalen 25

Argymhelliad 3. Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyflwyno canllawiau gweithredol clir i gefnogi'r gwaith o gymhwyso adran 25A mewn modd cyson ar draws byrddau iechyd yng Nghymru. Dylai adrodd yn ôl i ni ar y cynnydd sydd wedi ei wneud ar ddatblygu'r canllawiau hyn o fewn 6 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn..... Tudalen 26

Argymhelliad 4. Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gomisiynu ymarfer mapio ar gyfer y systemau digidol sy'n gysylltiedig â chydymffurfio â gofynion y Ddeddf er mwyn galluogi gwerthusiad gonest o'r gwaith y mae angen ei wneud o hyd i wella effeithlonrwydd a chysylltedd y systemau hynny, a'r amserlenni ar gyfer hyn. Dylai hyn gynnwys ystyried rôl technoleg ddigidol o ran galluogi nyrsys i ddarparu gwell gofal i gleifion. Tudalen 26

Argymhelliad 5. Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ymrwymo i gynnal adolygiad llawn ac academaidd o'r Ddeddf cyn gynted ag y bydd y data i gefnogi'r gwaith hwn ar gael. Tudalen 27

Argymhelliad 6. Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gomisiynu gwaith ymchwil i'r defnydd hyd yma o offeryn cynllunio gweithlu Lefelau Gofal Cymru, gan gynnwys ystyried sut y mae Cymru'n cymharu â gwledydd eraill y DU o ran gwella lefelau staff nyrsio a diogelwch cleifion. Tudalen 27

Argymhelliad 7. Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol roi diweddariad ysgrifenedig, o fewn 6 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn, ar lwyddiant y camau gweithredu i wella'r sefyllfa o ran recriwtio a chadw nyrsys a sicrhau

cyflenwad cynaliadwy o nyrsys, gan gynnwys cyfeiriad at recriwtio rhyngwladol a'r defnydd o staff asiantaeth..... Tudalen 35

Argymhelliad 8. Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:

- gadarnhau y caiff y gwaith o gyflwyno rôl y cydymaith nyrsio cofrestredig ei ariannu'n llawn, a nodi o ble y daw'r cyllid hwnnw;
- rhoi sicrwydd y bydd rôl cydymaith nyrsio cofrestredig yn ychwanegol at y gweithlu presennol ac nid yn lle nyrsys cofrestredig; a nodi i ba raddau y mae'r Ddeddf yn lliniaru'r risg o hynny;
- nodi sut y bydd gofynion y Ddeddf yn gymwys i rôl y cydymaith nyrsio cofrestredig; a
- darparu manylion am unrhyw asesiad o'r risg i ddiogelwch cleifion sydd wedi'i wneud neu a fydd yn cael ei wneud ym mhob maes lle y bydd cydymaith nyrsio cofrestredig yn cael ei gyflogi.Tudalen 36

Argymhelliad 9. Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn o fewn 9 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn ar y defnydd o'r Offerynnau Lefelau Gofal Cymru drafft ar gyfer iechyd meddwl ac ymweliadau iechyd gan fyrddau iechyd, gan ddarparu gwerthusiad o sut y maent yn cyfrannu at ddatblygu gweithlu cynaliadwy a gwell gofal i gleifion yn y maes hwn.

..... Tudalen 46

Argymhelliad 10. Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddefnyddio Rhaglen Staff Nyrsio Cymru Gyfan i gomisiynu ymarfer mapio o'r adnoddau eraill sydd ar gael ar gyfer cynllunio'r gweithlu, ac i ddatblygu'r egwyddorion a'r canllawiau i sicrhau dull gweithredu cyson wrth eu cymhwyso ledled Cymru. Tudalen 47

Argymhelliad 11. Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol rannu gyda'r Pwyllgor ganfyddiadau asesiad Grŵp Staff Nyrsio Cymru Gyfan o effaith y Ddeddf ar waith aml-broffesiwn..... Tudalen 47

1. Cefndir

1. Yn 2016, pasiodd Cymru Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru). Y Ddeddf hon oedd y ddeddf gyntaf yn Ewrop i gydnabod, mewn deddfwriaeth, y cysylltiad rhwng niferoedd staff nyrsio a'u cymysgedd sgiliau a chanlyniadau i gleifion.
2. Cafodd y ddeddfwriaeth ei hysgogi gan bryderon am fethiannau mewn gofal nyrsio yn y DU, gan gynnwys **adroddiad yn dilyn ymchwiliad cyhoeddus Ymddiriedolaeth Sefydliad GIG Canol Swydd Stafford** ac, yng Nghymru, **adroddiad Ymddiried mewn Gofal** ar ansawdd a diogelwch cleifion yn Ysbyty Tywysoges Cymru ac yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot.
3. Cyflwynwyd y *Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru)*¹ fel Bil Aelod² gan Kirsty Williams AC, a'i ddiben datganedig oedd ei gwneud yn ofynnol i gyrff y gwasanaeth iechyd wneud darpariaeth ar gyfer lefelau diogel o staff nyrsio, a sicrhau bod digon o nyrsys yn cael eu defnyddio i:
 - alluogi gofal nyrsio diogel i gael ei ddarparu i gleifion bob amser;
 - gwella amodau gwaith ar gyfer nyrsys a staff eraill; a
 - cryfhau trefniadau atebolrwydd o ran diogelwch, ansawdd ac effeithiolrwydd cynllunio a rheoli'r gweithlu.
4. Yn wreiddiol, roedd y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd gyfrifo a chynnal lefelau staff nyrsio priodol mewn wardiau meddygol a llawfeddygol aciwt i oedolion.
5. Drwy gydol datblygiad a hynt y ddeddfwriaeth drwy'r Senedd, roedd bwriad clir i'r gofyniad hwn (y cyfeirir ato'n gyffredin fel 'adran 25B') gael ei ymestyn i leoliadau gofal iechyd eraill yn y dyfodol. O fis Hydref 2021, mae hefyd wedi bod yn berthnasol i wardiau pediatrig.
6. Fe wnaeth yr Alban ddilyn Cymru gyda **Deddf Iechyd a Gofal (Staffio) (Yr Alban) yn 2019**, sy'n nodi gofynion staffio diogel ar draws gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Ar hyn o bryd nid oes darpariaeth ddeddfwriaethol debyg yn Lloegr na Gogledd Iwerddon.

¹ Tynnwyd y gair 'diogel' o deitl y Bil yng Nghyfnod 2 yn sgil gwelliant gan Lywodraeth Cymru..

² Mae 'Bil Aelod' yn Fil sy'n cael ei gyflwyno a'i hyrwyddo gan Aelod unigol o'r Senedd.

Prif elfennau'r Ddeddf

7. Fe wnaeth y Ddeddf fewnosod yr adrannau newydd a ganlyn yn Neddf GIG (Cymru) 2006 (cyfeirir yn aml at y dyletswyddau allweddol gan rifau'r adrannau hyn):

- **25A:** dyletswydd gyffredinol ar fyrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG i roi sylw i bwysigrwydd darparu digon o nyrsys ym mhob lleoliad. Mae hyn hefyd yn berthnasol pan fo byrddau iechyd yn comisiynu gwasanaethau gan drydydd parti. Daeth y ddyletswydd hon i rym ym mis Ebrill 2017.
- **25B:** dyletswydd i gyfrifo a chynnal lefelau staff nyrsio mewn lleoliadau penodedig (diffinnir y 'lefel staff nyrsio' fel "nifer y nyrsys sy'n briodol i ddarparu gofal i gleifion sy'n bodloni'r holl ofynion rhesymol yn y sefyllfa honno"³). Ar gyfer wardiau meddygol a llawfeddygol aciwt i oedolion, daeth hyn i rym ym mis Ebrill 2018. O fis Hydref 2021, mae hefyd wedi bod yn berthnasol i wardiau cleifion mewnol pediatrig. Mae'r adran hon hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer ymestyn y ddyletswydd i leoliadau pellach.
- **25C:** yn nodi'r dull o gyfrifo lefelau staff nyrsio.
- **25D:** yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau statudol i fyrddau/ymddiriedolaethau iechyd ynghylch eu dyletswyddau o dan 25B a 25C.
- **25E:** mae'n ofynnol i fyrddau iechyd (ac ymddiriedolaethau lle bo hynny'n berthnasol) adrodd i Lywodraeth Cymru ar eu cydymffurfiaeth ag adran 25B ar ôl cyfnod o dair blynedd. Rhaid i Lywodraeth Cymru wedyn gyhoeddi adroddiad cryno. Cyhoeddwyd y cyntaf o'r adroddiadau cryno hyn, ar gyfer y cyfnod Ebrill 2018-Ebrill 2021, ym mis Rhagfyr 2021.

³ Mae 'nifer y nyrsys' yn golygu nifer y nyrsys cofrestredig (h.y. y rhai sydd â chofrestriad actif ar gofrestr y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth). Wrth gyfrifo lefelau'r staff nyrsio, gellir ystyried dyletswyddau nyrsio a gyflawnir o dan oruchwyliaeth gan nyrs gofrestredig, neu a ddirprwyir i berson arall gan nyrs gofrestredig. At y dibenion hyn, Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd yw'r aelodau anghofrestredig o'r gweithlu y dirprwyir dyletswyddau nyrsio iddynt gan nyrsys cofrestredig.

Ein hymchwiliad

- 8.** Ym mis Chwefror 2023, fe wnaethom gytuno i gynnal gwaith craffu ar ôl deddfu ar *Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016*. Roedd hyn yn dilyn ymweliad â Phrifysgol De Cymru ym mis Rhagfyr 2022, a sesiwn graffu gyda'r Prif Swyddog Nyrsio ym mis Ionawr 2023.
- 9.** Fel rhan o'n hymchwiliad, fe wnaethom ystyried pedair thema allweddol:
- **gweithrediad ac effeithiolrwydd y Ddeddf hyd yma:** sut mae'r Ddeddf wedi effeithio ar ganlyniadau cleifion, ar recriwtio a chadw nyrsys, a rhwystrau wrth gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth.
 - **camau gweithredu pellach sydd eu hangen:** sicrhau cyflenwad cynaliadwy o staff nyrsio i ddiwallu anghenion cleifion a gofynion y ddeddfwriaeth yn y dyfodol.
 - **y cynnydd sydd wedi ei wneud o ran datblygu'r sylfaen dystiolaeth i ymestyn y Ddeddf i leoliadau pellach.**
 - **y graddau y mae'r Ddeddf yn paratoi at y dyfodol:** a fydd y Ddeddf yn cyfrannu at sicrhau bod gan GIG Cymru y gweithlu sydd ei angen arno yn y dyfodol i ddarparu gofal effeithiol sy'n canolbwyntio ar y claf ac sy'n diwallu anghenion yr holl grwpiau poblogaeth.
- 10.** Rydym wedi:
- cyhoeddi galwad ysgrifenedig am dystiolaeth rhwng 11 Mai a 6 Gorffennaf 2023. Daeth 15 o ymatebion i law;
 - cynnal sesiynau tystiolaeth lafar gyda rhanddeiliaid allweddol ar 19 Hydref 2023;
 - clywed gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Swyddog Nyrsio Cymru ar 6 Rhagfyr 2023.
- 11.** Mae atodlenni tystiolaeth ysgrifenedig ar gael yn Atodiad 1 ac atodlenni tystiolaeth lafar yn Atodiad 2.
- 12.** Hoffem ddiolch i bawb sydd wedi rhoi eu hamser i gyfrannu at ein hymchwiliad.

2. Gweithrediad ac effeithiolrwydd y Ddeddf hyd yma

Mae'r Ddeddf wedi codi proffil nyrsio yng Nghymru, gan sicrhau adroddiadau a throsolwg o lefel y ward i lefel y bwrdd.

13. Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn gefnogol i'r Ddeddf ac yn credu ei bod wedi rhoi llais i nyrsys ar bob lefel.⁴ Clywsom fod y Ddeddf wedi:

- ysgogi cynnydd mewn buddsoddiad mewn nyrsio;
- creu newid mewn diwylliant, gyda chyfrifoldeb corfforaethol am staff nyrsio a diogelwch cleifion;
- cefnogi'r gwaith o gynllunio'r gweithlu;
- codi proffil y proffesiwn nyrsio gydag uwch-reolwyr y GIG, a grymuso uwch-dimau nyrsio; a
- mwy o dryloywder ac atebolrwydd o fewn byrddau iechyd.

14. Roedd Mind Cymru yn credu:

*"[the Act] has clearly driven major changes to healthcare in Wales and is leading across Europe in its ambition. It has had clear benefits, notably in the increased onus placed on Health Boards to find a way to meet the requirements of the legislation, and a transparency about what they might need to meet their targets."*⁵

15. Cytunodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg fod y Ddeddf wedi arwain at welliannau sylweddol o ran tryloywder ac atebolrwydd o fewn y bwrdd iechyd, a dywedodd:

"[it also] empowers senior nursing teams and ward managers by giving them accountability and ownership within a defined

⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, NS4

⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, NS9

framework. This framework supports workforce predictions and decisions regarding staffing levels, which may need to be increased or decreased in response to changes in specialty and acuity.”⁶

16. Dywedodd Addysg a Gwellu Iechyd Cymru wrthym fod y Ddeddf wedi amlygu bod cynnal lefelau staff nyrsio yn sicrhau bod gofal diogel yn cael ei ddarparu i gleifion.⁷

17. Yn sgil y Ddeddf, clywsom fod yna ddull mwy systematig a chydgyssylltiedig o osod lefelau staff nyrsio, a sylfaen dystiolaeth gryfach i gefnogi gwaith o gynllunio'r gweithlu. At hynny, mae'r buddsoddiad hwnnw mewn nyrsio wedi cynyddu, ac mae newid wedi bod mewn diwylliant, felly mae 'cyfrifoldeb corfforaethol' bellach am staff nyrsio a diogelwch cleifion, ynghyd â mwy o graffu a thryloywder:

(...) too often - we see a very tragic example of harm to the patients, there is an inquiry or some kind of investigation, and blame is apportioned or investigated as to the causes of that harm.

But, very often, that centres around the individual incident, and that might be the individual nurse or member of nursing staff (...). But it doesn't incorporate that wider corporate responsibility that we feel should be there. What is the responsibility of the finance director? What is the responsibility of the workforce director? What is the responsibility of the chief executive? I think that's one of the reasons for that legislation, and I think that wider culture change of corporate responsibility for safety has changed.”⁸

18. Er nad oes deddfwriaeth debyg yn weithredol yn Lloegr, mae canllawiau NICE ar lefelau staff nyrsio diogel ar gyfer wardiau aciwt i oedolion. Wrth roi tystiolaeth, awgrymodd Prifysgol Southampton fod cyflwyno canllawiau NICE ar lefelau staff diogel hefyd wedi arwain at fwy o atebolrwydd am staff nyrsio, a buddsoddiad mewn staff nyrsio mewn Ymddiriedolaethau yn Lloegr.⁹

19. Serch hynny, un neges glir mewn tystiolaeth lafar ac ysgrifenedig yw bod y dull deddfwriaethol a fabwysiadwyd yng Nghymru wedi arwain at fanteision

⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, NS10

⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, NS12

⁸ Cofnod y Trafodion. 19 Hydref 2023. para 17.

⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, NS15

sylweddol. Ar y pwynt hwn, dywedodd Jennifer Winslade, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan:

"I came to Wales 13 months ago from England, and there is no doubt to me, having worked in the English NHS for a very long time, that the Act has had an extremely positive impact on patient outcomes, but also on the sense of well-being and, certainly, the impact on our staff who are nursing on the wards every day".¹⁰

20. Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, ac er gwaethaf y sylwadau cadarnhaol ar y cyfan am y ddeddfwriaeth, dywedodd nifer o ymatebwyr y bu'n anodd dangos effaith y Ddeddf ar ganlyniadau cleifion.¹¹

21. Dywedodd AaGIC:

"(...) we wouldn't actually be able to say to you that we've got absolute evidence that [the Act has] made a difference at a strategic, national level. (...)

from a national perspective, that evidence isn't there in terms of things like sustainable workforce, attraction, recruitment, retention."¹²

22. Dywedodd Conffederasiwn y GIG wrthym fod gwelliannau eraill sydd wedi'u cyflwyno (megis cyfarfodydd adolygu niwed ar lefel leol, mwy o addysg i staff a chyflwyno'r Offeryn Gwerthuso Sylfaenol neu Eilaidd o Risgiau Briwiau Pwysu) wedi golygu ei bod yn arbennig o heriol priodoli newid yn gyfan gwbl i'r ffaith y cyflwynwyd y Ddeddf yn arbennig o heriol.¹³

23. Teimlai Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ei bod yn anodd dangos effaith y Ddeddf oherwydd bod y bar o ran adrodd ar fetrigau wedi ei osod mor uchel fel mai dim ond ychydig iawn o ddigwyddiadau a adroddir. Nododd y Bwrdd y gallai hyn newid yn y dyfodol o ganlyniad i'r ddyletswydd gonestrwydd newydd lle bydd niwed cymedrol yn cael ei adrodd yn y dyfodol.¹⁴

¹⁰ Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, [Cofnod y Trafodion, 19 Hydref 2023](#)

¹¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, NS2, NS13, NS14, NS15

¹² [Cofnod y Trafodion, 19 Hydref 2023](#), para 373

¹³ Tystiolaeth ysgrifenedig, NS13, NS14

¹⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, NS2

24. Fodd bynnag, soniodd Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru am y sylfaen dystiolaeth sefydledig sy'n cysylltu niferoedd nyrsys â diogelwch cleifion, ac wrth drafod y canlyniadau i gleifion dywedodd:

"(...) the central point is that we know that on section 25B wards, there are more nursing staff than there would otherwise have been. Because we know the correlation between not just the number but the skill level of the nursing staff and the risk of patient mortality and patient outcome, we know that patients are safer on those wards. So, that in itself is enough in terms of the beneficial impact of the Act."¹⁵

Adran 25B a'r dull trionglog

Mae adran 25B yn creu dyletswydd i gyfrifo a chynnal lefelau staff nyrsio mewn lleoliadau penodedig gan ddefnyddio dull trionglog.

Dyma dair elfen y dull trionglog (fel y darperir ar ei gyfer yn adran 25C):

- i. defnyddio offeryn cynllunio'r gweithlu sy'n seiliedig ar dystiolaeth i fesur aciwtedd cleifion a chynhyrchu amcangyfrif o'r gymhareb briodol o nyrsys i gleifion (offeryn cynllunio gweithlu 'Lefelau Gofal Cymru');
- ii. barn broffesiynol; a
- iii. dangosyddion ansawdd sy'n ystyrlon o nyrsys.

Cyfrifir lefel y staff nyrsio ddwywaith y flwyddyn, yn dilyn archwiliad aciwtedd a gynhelir mewn wardiau perthnasol yn ystod mis Ionawr a mis Mehefin gan ddefnyddio offeryn cynllunio gweithlu 'Lefelau Gofal Cymru'.

Mae canlyniadau'r archwiliad yn cael eu triongli gyda barn broffesiynol yr uwch-nyrsys sy'n adnabod y wardiau a lefelau angen y cleifion, a chyda dangosyddion ansawdd sy'n arbennig o sensitif i'r gofal a ddarperir gan nyrs.¹⁶

25. Dywedodd yr ymatebwyr wrthym fod y 'dull trionglog' o gyfrifo lefelau staff nyrsio yn effeithiol, ei fod yn darparu tystiolaeth o angen cleifion a gofynion staff

¹⁵ Cofnod y Trafodion, 19 Hydref 2023, para 14

¹⁶ Dylai dangosyddion gynnwys nifer cwmpïadau cleifion, briwiau pwyso a gafwyd yn yr ysbyty, gwallau o ran meddyginiaeth, a chwynion. Gellir ystyried dangosyddion ansawdd ychwanegol y bernir eu bod yn briodol ar gyfer wardiau.

nyrsio yn y wardiau lle mae adran 25B yn berthnasol, a'i fod yn helpu wrth ystyried y cynnydd mewn lefelau staffio i ddiwallu anghenion cleifion.¹⁷

“Positively nurses can now raise live red flags if they feel nurse staffing levels are insufficient and that patient care is compromised. The triangulated approach allows the nurse to use professional judgement which also gives a level of autonomy.”¹⁸

26. Roedd yr ymatebwyr yn gadarnhaol ar y cyfan wrth drafod offeryn cynllunio gweithlu ‘Lefelau Gofal Cymru’, gyda Choleg Nyrsio Brenhinol Cymru yn dweud bod Cymru ar y blaen o ran datblygu'r offeryn:

“We haven’t shouted about it enough in my view. We have a dataset there about patient acuity that, possibly, nobody else in the world has got. Now, that data and that information has been phenomenal in terms of understanding about patients, understanding about patient care, being able to move things forward. We should be hugely proud of how we’ve managed to do that, and I believe that building that into other areas, other clinical areas, is the right next step.”¹⁹

27. Dywedodd Prifysgol Southampton:

“If a tool leads to a higher registered nurse staffing level, the preponderance of evidence indicates that patient outcomes and quality of care will be improved.”²⁰

28. Fodd bynnag, soniodd y Brifysgol hefyd am y diffyg gwaith ymchwil sydd wedi ei gyhoeddi yn ymwneud â'r offeryn ‘Lefelau Gofal Cymru’ yn benodol, gan nodi nad oedd adolygiad systemig diweddar y gwnaethant ei gynnal wedi dangos llawer o dystiolaeth uniongyrchol o fanteision defnyddio adnodd staffio diffiniedig fel offeryn Lefelau Gofal Cymru.²¹

29. Clywsom fod ffocws penodol y Ddeddf ar ddefnyddio barn broffesiynol yn grymuso nyrsys, a'i fod yn elfen hanfodol o'r broses o bennu lefelau staff nyrsio.²²

¹⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, NS1, NS4, NS6

¹⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, NS6

¹⁹ ~~Cofnod y Trafodion, 19 Hydref 2023~~, paragraffau 59, 61

²⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, NS15

²¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, NS15

²² Tystiolaeth ysgrifenedig, NS1, NS6

30. O ran y dangosyddion ansawdd a nodir yn y canllawiau statudol, teimlwyd yn gyffredinol eu bod yn briodol ac y gallant helpu wrth adnabod lle mae lefelau staffio yn annigonol. Fodd bynnag, clywsom y gall fod heriau o ran cysylltu dangosydd yn uniongyrchol â lefel y staff nyrsio ar ward benodol. Er enghraifft, gall briw pwysu fod wedi datblygu mewn rhan arall o'r ysbyty neu leoliad gofal, neu efallai fod gostyngiad mewn niferoedd codymau i'w briodoli'n rhannol i waith ehangach o ran lleihau niwed mewn bwrdd iechyd. Gan hynny, dywedwyd wrthym fod angen ystyried taith y claf, yn hytrach na chanolbwyntio ar un maes²³.

31. Roedd rhai ymatebwyr, fodd bynnag, yn pryderu efallai nad y dangosyddion ansawdd, a'u gofynion adrodd, oedd y rhai cywir neu nad oeddent yn ddigon sensitif i ddarparu data ystyrlon sy'n amlygu'r cysylltiad rhwng lefelau staff nyrsio a chanlyniadau cleifion.²⁴ Roeddent yn awgrymu y dylid ystyried dangosyddion eraill sy'n seiliedig ar ymchwil, yn enwedig ar gyfer lleoliadau pellach lle mae'n bosibl nad y dangosyddion presennol yw'r rhai mwyaf defnyddiol (e.e. mewn lleoliadau iechyd meddwl).²⁵

32. O ran cyfrifo lefel y staff nyrsio ddwywaith y flwyddyn, dywedodd rhai rhanddeiliaid fod yr amser sydd ei angen ar gyfer dilysu a chyflwyno i'r pwyllgor neu'r Bwrdd perthnasol yn golygu nad oes llawer o amser i brofi'r lefel staffio newydd cyn y rownd gyfrifo nesaf. Awgrymodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe y dylid ystyried symud i ddull cyfrifo unwaith y flwyddyn a fyddai'n caniatáu i unrhyw newidiadau blaenorol gael eu mesur a'u gwerthuso cyn y cylch nesaf, gyda darpariaeth i ail-gyfrifo rhwng cylchoedd os oes angen.²⁶

33. O ran cydymffurfio ag adran 25B, nododd Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru fod prosesau sefydledig wedi eu nodi yn y canllawiau statudol ar gyfer adrodd ar ddiffyg cydymffurfriad, ond teimlai'r Coleg fod y prosesau hyn yn aneglur. Galwodd ar Lywodraeth Cymru i ddarparu eglurder o ran beth yw'r goblygiadau o beidio â chydymffurfio ag adrannau 25B a 25C, ac i'r adrannau hynny gael eu cynnwys yn Nhrefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd GIG Cymru.²⁷

34. Yn olaf, rhaid i fyrddau/ymddiriedolaethau iechyd wneud trefniadau i hysbysu cleifion am lefel y staff nyrsio ar bob ward lle mae adran 25B yn berthnasol.²⁸ Ar y pwynt yma, dywedodd Mind Cymru wrthym fod y gofyniad hwn

²³ [Cofnod y Trafodion, 19 Hydref 2023](#), para 311

²⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, NS2, NS4, NS7, NS8, NS11

²⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, NS2, NS13

²⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, NS4, NS10

²⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, NS5

²⁸ Gweler paragraffau 20-25 o'r [canllawiau statudol](#).

yn rhoi mwy o berchnogaeth i'r claf dros ei ofal ac yn gwarchod yr hawl i driniaethau o ansawdd penodol.²⁹

35. Yn ymarferol, clywsom gan Gyfarwyddwyr Nyrsio fod gwaith i'w wneud o hyd yn y maes hwn, yn enwedig o ran sicrhau cysondeb wrth arddangos gwybodaeth am lefelau staffio.³⁰

Adran 25A

Mae adran 25A yn gosod dyletswydd gyffredinol ar fyrddau/ymddiriedolaethau iechyd lleol i roi sylw i bwysigrwydd darparu digon o nyrsys ym mhob lleoliad.

36. Dywedodd Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru wrthym fod y ddyletswydd gyffredinol yn adran 25A wedi cael effaith gadarnhaol ar gleifion a nyrsys drwy godi proffil nyrsio, gan ddangos ei werth a'r angen am fuddsoddiad yn y proffesiwn.³¹ Fodd bynnag, dadleuodd y Coleg fod heriau parhaus i'r gweithlu, yn benodol o ran recriwtio a chadw, gan nad oedd dyletswydd Adran 25A yn cael ei gwireddu'n llawn.³²

37. Aeth Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru ymlaen i ddadlau bod diffyg canllawiau statudol ar gyfer gweithredu adran 25A wedi arwain at ei gweithredu'n wan ac nad oes canllawiau clir ar sut i sicrhau cydymffurfiaeth. Galwodd ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu canllawiau statudol a gweithredol ar gyfer yr adran hon a fyddai'n helpu wrth gynllunio'r gweithlu ac yn galluogi'r Coleg i barhau i baratoi ar gyfer ymestyn 25B.³³

38. Cyfeiriodd Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru at y goblygiadau prin i fyrddau iechyd o ganlyniad i ddiffyg cydymffurfio ag adran 25A, a galwodd ar Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i arolygu ac adrodd ar lefelau cydymffurfio ag Adran 25A o Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 mewn lleoliadau gofal lle mae ganddynt gyfrifoldeb statudol i reoleiddio ac arolygu.³⁴

39. Cyfeiriodd ymatebwyr eraill hefyd at y diffyg arweiniad mewn perthynas ag adran 25A. Clywsom, er bod y canllawiau statudol sy'n helpu wrth weithredu adrannau 25B a 25C wedi helpu i sicrhau dull gweithredu cyson ledled Cymru, mewn cyferbyniad, mae llai o arweiniad a diffyg eglurder ynghylch dyletswydd

²⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, NS9

³⁰ [Cofnod y Trafodion, 19 Hydref 2023](#), paragraffau 201-202

³¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, NS5

³² Tystiolaeth ysgrifenedig, NS5

³³ Tystiolaeth ysgrifenedig, NS5, a [Chofnod y Trafodion, 19 Hydref 2023, para 44](#)

³⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, NS5

troswaol adran 25A.³⁵ Dywedodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe wrthym y gallai hyn arwain at amwysedd a dulliau gweithredu gwahanol ledled Cymru.³⁶

Seilwaith adrodd a seilwaith digidol

O dan adran 25E o'r Ddeddf, mae'n ofynnol i fyrddau iechyd adrodd i Lywodraeth Cymru ar eu cydymffurfiaeth ag adran 25B ar ôl cyfnod o dair blynedd. Rhaid i Lywodraeth Cymru wedyn gyhoeddi adroddiad cryno. Cyhoeddwyd adroddiad cryno cyntaf Llywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2021.³⁷

40. Dywedodd Rhaglen Staff Nyrsio Cymru Gyfan wrthym fod y broses lefelau staffio yn un sydd angen digwydd dro ar ôl tro, a bod gwersi wedi'u dysgu o'r adroddiad tair blynedd cyntaf³⁸ a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru. Dywedasant:

"We've set up a group that has representatives from across NHS Wales and looked at those reports and how we can refine and develop the reporting metrics. So, we have now revised the reporting metrics in line with the duty of candour to include level 3 incidents of moderate harm, and we'll be looking to implement those new reporting metrics, which have now been agreed by the executive nurse directors for Wales and the chief nursing officer, from April 2024.

So, in the next reporting cycle we will have a lot more data with a more granular level to be able to look at the impact it's had on nurse staffing levels."³⁹

41. Roedd teimlad cyffredinol ymhlith yr ymatebwyr fod seilwaith digidol wedi bod yn agwedd heriol drwy gydol y broses.⁴⁰

42. Soniodd nifer ohonynt am y ffaith nad oedd y seilwaith TGCh angenrheidiol yn bodoli i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Ddeddf pan ddaeth yn weithredol, a bod hyn wedi effeithio ar allu'r byrddau iechyd i allu casglu'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt er mwyn gallu dangos eu sefyllfa yn sgil gofynion adrodd y

³⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, NS3, NS4

³⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, NS4, [Cofnod y Trafodion, 19 Hydref 2023, para 87](#)

³⁷ [Deddf Lefelau Staff Nyrsio \(Cymru\) 2016: adroddiadau lefelau staff nyrsio 2018 i 2021](#)

³⁸ Sy'n ofynnol gan adran 25E

³⁹ [Cofnod y Trafodion, 19 Hydref 2023, para 312](#)

⁴⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, NS6

Ddeddf.⁴¹ Adlewyrchwyd hyn hefyd yn adroddiadau cryno cyntaf Llywodraeth Cymru.

43. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod cynnydd sylweddol wedi ei wneud yn ystod y blynyddoedd diwethaf o ran cyflwyno system e-amserlennu/adrodd ar gyfer Cymru gyfan, sef system 'SafeCare'⁴². Cadarnhaodd Joanna Doyle, Pennaeth Rhaglen Staff Nyrsio Cymru Gyfan, fod y system bellach yn weithredol ar draws yr holl fyrddau iechyd a'i bod yn gweithio'n effeithiol iawn.⁴³

44. Er hyn, clywsom fod heriau yn dal i fodoli o ran gallu tynnu data o'r system.⁴⁴ Ar y pwynt hwn, dywedodd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre:

"A package of data retrieval is still being negotiated and costed, retrieving the data to create meaningful visual metrics is challenging and labour intensive. It would have been helpful if these issues had been ironed out from the outset as we have a system that currently doesn't offer all functionality to make it fully effective."⁴⁵

45. At hynny, dywedwyd wrthym nad mater ydyw o sicrhau bod systemau yn weithredol yn unig; mae angen gwella cysylltedd systemau hefyd.⁴⁶ Ar y pwynt yma, dywedodd Ruth Walker, AaGIC:

"We've got a huge data set of evidence, probably some of the biggest in the UK, if not wider than that. Unfortunately, that data doesn't talk to the roster, doesn't talk to the patient record. (...) if we had a system where these did talk to one another, I would be able to sit here today and provide you with the evidence that, actually, these [the triangulated approach and the nurse staffing levels] do correlate.

It would be really helpful, I think, to (...) look at the digital systems and how they connect."⁴⁷

46. Mewn ymateb i'r pwyntiau hyn, cydnabu Rhaglen Staff Nyrsio Cymru Gyfan fod gwaith i'w wneud o hyd, a'u bod yn gweithio gydag Iechyd a Gofal Digidol

⁴¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, NS1, NS2, NS4, NS5, NS6, NS7, NS8, NS11

⁴² Tystiolaeth ysgrifenedig, NS1, NS2, NS4, NS5, NS6, NS7, NS8, NS11

⁴³ [Cofnod y Trafodion, 19 Hydref 2023](#), para 328

⁴⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, NS6

⁴⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, NS6

⁴⁶ [Cofnod y Trafodion, 19 Hydref 2023](#), paragraffau 151, 351

⁴⁷ [Cofnod y Trafodion, 19 Hydref 2023](#), para 299

Cymru a phartneriaid i ystyried pob opsiwn posibl i wella'r cymorth a roddir wrth ddadansoddi data, systemau digidol a systemau a phrosesau gwybodeg.⁴⁸

47. Yn gysylltiedig â hyn, cyfeiriodd AaGIC hefyd at yr angen i gasglu data am y gweithlu'n well, y gwnaethant ei ddisgrifio fel data a ddylai fod yn bwysig o fewn y GIG. Dywedasant wrthym eu bod yn gweithio gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru a phartneriaid i sicrhau eu bod yn gallu cael y data a'u mewnosod yn yr adnodd data cenedlaethol sy'n cael ei ddatblygu:

"We've got data standards for the first time around workforce data. We've got an agreement in terms of the approach that we're going to take to it being part of the national approach and system. We've got a secondary care dashboard that we've never had access to before. So, we're starting to see a lot of things improving around workforce data that we wouldn't have had before (...)." ⁴⁹

48. Yn ogystal, clywsom y gellid gwneud mwy i wneud y mwyaf o rôl technoleg ddigidol wrth alluogi nyrsys i ddarparu gofal gwell i gleifion. Dywedodd Nicola Williams, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre:

"We really need to be looking at how we use proper digital infrastructure, how we have digital at the bedside, and at the virtual bedside through mobile devices, which really maximises the time our nurses can spend with patients, rather than with paperwork and trying to follow things through and chase referrals et cetera, which could all be digitally enabled to happen. But that in itself would also help to reduce patient harm and ensure safety."⁵⁰

49. Ar y pwynt yma, cyfeiriodd y Prif Swyddog Nyrsio at y cynnydd sydd wedi ei wneud gyda chynllun peilot dwy flynedd o ran nyrsio mewn ardaloedd cymdogaeth, sydd wedi cynnwys cyflwyno system e-amserlennu:

"It enables nurses on the ground to practically come to a community setting, so a home, see a patient, determine that, 'We put in 15 minutes for your care. Actually, you're going to need an hour because you're sicker than we thought.' They go

⁴⁸ Cofnod y Trafodion. 19 Hydref 2023, para 329

⁴⁹ Cofnod y Trafodion. 19 Hydref 2023, para 426

⁵⁰ Cofnod y Trafodion. 19 Hydref 2023, para 142

into their system online, they can put in the details. That system will reallocate their workload through the day to others or move it elsewhere and allow them the time, in an agile and dynamic way, to deliver that care. (...)

With that, they've also been able to increase the delegation of care to their healthcare support workers, which means they are truly utilising the team-around-the-patient approach.”⁵¹

Gwerthuso'r Ddeddf

50. Clywsom gan rai ymatebwyr, gan gynnwys Rhaglen Staff Nyrsio Cymru Gyfan,⁵² am y diffyg ymchwil ffurfiol a gwerthuso sydd wedi eu cynnal ar fanteision ac effaith y Ddeddf. Ar y pwynt yma, dywedodd Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru y byddai'n gam pwysig pe byddai Llywodraeth Cymru yn comisiynu ymchwil i'r effeithiau ar gleifion ar lefel gymdeithasol, economaidd, ac o ran diogelwch yn sgil Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016.⁵³

51. Yn yr un modd, credai Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro:

“Research regarding whether the principles that inform the Act has been evidenced and materialised would be informative for the future direction of the Act.”⁵⁴

52. Roedd Jennifer Winslade, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Nicola Williams, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio yn Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, yn credu ei bod yn bwysig cynnal gwerthusiad ffurfiol o'r Ddeddf:

“That will help us with that question about what is next, therefore, and how we may best develop the Act further to address that multiprofessional approach, and make sure that it's broadened into areas such as community, which we all know are so very important for patients and the population going forward.”⁵⁵

⁵¹ [Cofnod y Trafodion, 6 Rhagfyr 2023](#), para 111

⁵² [Cofnod y Trafodion, 19 Hydref 2023](#), paragraffau 344, 351

⁵³ Tystiolaeth ysgrifenedig, NS5

⁵⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, NS8

⁵⁵ [Cofnod y Trafodion, 19 Hydref 2023](#), para 239

53. Roedd AaGIC, fodd bynnag, yn cwestiynu amseriad a gwerth adolygu'r ddeddfwriaeth yn dilyn y pandemig, gan ddweud:

*"Yn ddealladwy, effeithiodd yr aflonyddwch a achoswyd yn sgil y pandemig yn sylweddol ar allu a chapasiti sefydliadau i weithredu'r ddeddfwriaeth."*⁵⁶

Tystiolaeth gan y Gweinidog

54. Un o'r tri phrif nod a nodwyd yn y Bil pan gafodd ei gyflwyno i'r Senedd oedd cryfhau atebolrwydd am ddiogelwch, ansawdd ac effeithiolrwydd cynllunio a rheoli'r gweithlu. Ym marn y Gweinidog:

"(...) gellir dadlau mai dyma lle mae'r Ddeddf wedi cael yr effaith amlycaf.

Un budd a oedd yn glir ar unwaith pan ddaeth y Ddeddf i rym oedd y newid i ymdeimlad o gyfrifoldeb corfforaethol mewn perthynas â staff nyrsio, ond hefyd y camau i rymuso llais y nyrs ar lefel weithredol o ran beth y dylai lefelau staffio fod.

Yn ddiau, mae sail statudol y Cyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio fel y "person dynodedig" wedi newid dynameg sgysiau am staffio a fu'n anodd yn hanesyddol, gan eu symud oddi wrth yr hyn y gellir ei fforddio i'r hyn sy'n briodol yn unol â pharamedrau'r Ddeddf.

*Er nad yw hyn yn fudd arbennig o gyffyrddadwy na mesuradwy, ni ellir tanddatgan ei bwysigrwydd."*⁵⁷

55. Fel tystion eraill, nododd y Gweinidog mai un o brif broblemau'r ddeddfwriaeth oedd diffyg unrhyw fecanweithiau statudol yn y Ddeddf i sicrhau cyflenwad cynyddol o staff nyrsio. Fodd bynnag, aeth ymlaen i ddweud:

*"Yr hyn y gallwn ei ddweud yn sicr yn seiliedig ar y data a gofnodwyd gan y byrddau iechyd eu hunain yw bod cyllid ar gyfer y gweithlu nyrsio mewn meysydd lle mae adran 25B yn gymwys wedi cynyddu ers iddi ddod i rym."*⁵⁸

⁵⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, NS12

⁵⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

⁵⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

56. O ran cydymffurfio â'r Ddeddf, dywedodd y Prif Swyddog Nyrsio wrthym fod hyn yn cael ei fonitro drwy'r ddyletswydd i adrodd bob tair blynedd o dan y Ddeddf, yn ogystal â'r mecanwaith adrodd blynyddol ar lefel byrddau iechyd. Dywedodd y trafodir unrhyw ddiffyg cydymffurfio mewn canllawiau gweithredol sydd wedi eu llunio o dan y Ddeddf. Cyfeiriodd at un enghraifft o fwrdd iechyd nad oedd wedi cydymffurfio ag adran 25B:

*"This has gone through the escalation process. The chief nursing officer then wrote a letter setting out quite clearly the expectation on that health board to comply with this. They were then escalated to targeted intervention for monitoring and oversight, and they did rectify that situation."*⁵⁹

57. Dywedodd wrthym ei bod yn teimlo'n hyderus bod yr adrodd ar gydymffurfiaeth yn digwydd yn sgil yr adroddiadau blynyddol i fyrddau iechyd, a bod hyn hefyd yn cael ei wyntyllu yn yr adroddiadau tair blynedd.⁶⁰

58. O ran hysbysu cleifion am y lefelau staff nyrsio ar wardiau o dan adran 25B, dywedodd y Prif Swyddog Nyrsio wrthym fod y pandemig wedi tarfu ar normaleiddio'r broses o arddangos gwybodaeth am lefelau staffio. Dywedodd ei bod wedi cyfarfod â chyfarwyddwyr gweithredol nyrsio ynghylch hyn, a'i bod wedi cyfarwyddo'r grŵp staff nyrsio Cymru-gyfan i oruchwylio a monitro hyn. Cadarnhaodd y byddai'r broses yn cael ei normaleiddio cyn gynted â phosib.⁶¹

59. O ran adran 25A a'r galwadau am ganllawiau cryfach, dywedodd y Gweinidog wrthym nad oedd hi o blaid datblygu canllawiau statudol ar gyfer yr adran hon. Fodd bynnag, roedd yn awyddus i weld canllawiau gweithredol yn dal i gael eu datblygu. Er nad oedd y Prif Swyddog Nyrsio yn credu bod diffyg dealltwriaeth ymhlith rhanddeiliaid ynghylch sut i weithredu adran 25A, roedd yn cytuno â'r Gweinidog, gan nodi:

*"I would fully support that there is a need for operational guidance to support a consistent approach to how 25A is used."*⁶²

⁵⁹ Cofnod y Trafodion, 6 Rhagfyr 2023, paragraffau 141-143

⁶⁰ Cofnod y Trafodion, 6 Rhagfyr 2023, para 143

⁶¹ Cofnod y Trafodion, 6 Rhagfyr 2023, paragraffau 117-119

⁶² Cofnod y Trafodion, 6 Rhagfyr 2023, para 139

60. O ran y materion sy'n ymwneud â seilwaith digidol, cydnabu'r Prif Swyddog Nyrsio y problemau hirsefydlog yn y maes hwn, ond dywedodd wrthym, wrth adrodd ar ddangosyddion ansawdd:

*"(...) in the next three-year reporting period, we will see a much more robust set of data, because we have a standardised approach to the collection of data through Datix Cymru. The utilisation of that data takes us to the next much more nuanced and sophisticated step."*⁶³

61. Yn olaf, mewn ymateb i alwadau am waith ymchwil i'r Ddeddf neu am werthusiad ohoni, cwestiynodd y Gweinidog a'r Prif Swyddog Nyrsio amseriad unrhyw werthusiad. Dywedodd y Prif Swyddog Nyrsio wrthym:

"(...) in order to fully evaluate the Act, we need a robust set of data (...) But there have been a significant amount of data quality challenges in the last six years of implementing the 25B ward areas".⁶⁴

62. Byddai hyn, meddai, yn gwneud gwerthuso'r Ddeddf ar yr adeg hon yn dasg anodd. Aeth ymlaen i ddweud:

*"In terms of a value-for-money perspective, we've got to ask ourselves whether that is the right place, right now, at this point, to invest that money to do a formal evaluation, when we don't have a robust enough data set that will support a full and academic review of the Act."*⁶⁵

63. Yn benodol o ran y galwadau gan Goleg Nyrsio Brenhinol Cymru am waith ymchwil i'r effeithiau ar gleifion ar lefel gymdeithasol, economaidd ac o ran diogelwch yn sgil y Ddeddf, dywedodd y Prif Swyddog Nyrsio:

"(...) if there was research that was going to really help this Act to move into a much more new world order (...), the research needs to be in a place where we focus on the team around the patient, really understanding the application of this Act for the

⁶³ Cofnod y Trafodion, 6 Rhagfyr 2023, para 96

⁶⁴ Cofnod y Trafodion, 6 Rhagfyr 2023, 80

⁶⁵ Cofnod y Trafodion, 6 Rhagfyr 2023, para 80-81

multiprofessional workforce (...). Then, I think that would be something that would be fully supportable."⁶⁶

Ein barn ni

64. Mae'n amlwg o'r dystiolaeth a glywsom fod y Ddeddf, yn y manau y mae'n gymwys, wedi arwain at welliannau sylweddol. Mae wedi codi proffil nyrsys mewn ysbytai, gan rymuso llais y nyrs ar lefel weithredol. Mae wedi galluogi dull mwy systematig, cydgysylltiedig o osod lefelau staff nyrsio, ac wedi creu sylfaen dystiolaeth gryfach i helpu wrth gynllunio'r gweithlu. Mae'r Ddeddf hefyd wedi arwain at gynnydd yn y cyllid ar gyfer y gweithlu nyrsio, a buddsoddiad yn y gweithlu nyrsio, yn y meysydd y mae'n berthnasol iddynt. Yn arwyddocaol, mae hefyd wedi amlygu meysydd lle mae angen gwelliannau.

65. Wedi dweud hynny, nid yw'r Ddeddf yn ateb pob problem ac mae llawer o heriau'n parhau, yn enwedig o ran recriwtio a chadw'r gweithlu nyrsio. Rydym yn trafod hyn yn fanylach yn y bennod nesaf.

25B a 25C

66. O ran adrannau 25B a 25C, mae offeryn cynllunio gweithlu Lefelau Gofal Cymru wedi darparu set ddata enfawr ynghylch aciwtedd cleifion nad oedd ar gael o'r blaen. Mae hyn, yn ei dro, wedi cyfrannu at well dealltwriaeth o ofal cleifion, mae wedi nodi bylchau ac mae wedi galluogi gwell cynllunio hirdymor ar gyfer y gweithlu.

67. O ran y dangosyddion ansawdd, er y teimlir yn gyffredinol eu bod yn briodol, rydym yn awyddus i dynnu sylw'r Gweinidog at dystiolaeth a gawsom yn cwestiynu a ydynt yn ddigon sensitif i ddarparu data ystyrlon sy'n dangos y cysylltiad rhwng lefelau staff nyrsio a chanlyniadau i gleifion. Roedd y dystiolaeth i'r perwyl hwn yn galw ar y Gweinidog i feddwl a ddylid ystyried dangosyddion eraill sy'n seiliedig ar ymchwil, yn enwedig pe bai egwyddorion y Ddeddf yn cael eu hymestyn i leoliadau pellach (boed hynny drwy ddulliau deddfwriaethol neu anneddfwriaethol).

68. Cawsom rywfaint o dystiolaeth gyfyngedig ynghylch y ffaith bod angen cynnal cyfrifiad o lefelau'r staff nyrsio ddwywaith y flwyddyn, ac a ddylid ystyried symud i gyfrifiad unwaith y flwyddyn er mwyn caniatáu i unrhyw newidiadau blaenorol gael eu mesur a'u gwerthuso cyn y cylch nesaf. Nid oedd hon yn

⁶⁶ [Cofnod y Trafodion. 6 Rhagfyr 2023](#), para 84

safbwynt a ategwyd gan bawb ond, er cyflawnrwydd, dymunwn dynnu sylw'r Gweinidog at y dystiolaeth hon.

69. O ran cydymffurfio ag adrannau 25B a 25C, rydym yn nodi tystiolaeth y Prif Swyddog Nyrsio y trafodir diffyg cydymffurfio mewn canllawiau sydd wedi eu llunio o dan y Ddeddf. Fodd bynnag, mae un o'r prif randdeiliaid yn y maes hwn, Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru, o'r farn bod y broses ar gyfer adrodd am ddiffyg cydymffurfio yn aneglur, ac y dylid darparu eglurder am y goblygiadau yn sgil diffyg cydymffurfio ag adrannau 25B a 25C, a'u cynnwys yn Nhrefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd GIG Cymru. Ar y sail hon, credwn fod angen i'r Gweinidog roi sylw i hyn.

Argymhelliad 1. Dylai'r Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddarparu eglurder ynghylch goblygiadau diffyg cydymffurfio ag adrannau 25B a 25C o'r Ddeddf ac ystyried cynnwys darpariaeth ar gyfer hyn yn Nhrefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd GIG Cymru.

70. O ran y gofyniad i arddangos gwybodaeth am lefelau staff nyrsio ar wardiau perthnasol, rydym yn cytuno â thystion bod darparu'r wybodaeth hon yn bwysig i gleifion ac ymwelwyr. Nodwn nad yw hyn yn cael ei wneud eto mewn modd cyson yn dilyn pandemig Covid-19, a chroesawn y dystiolaeth gan y Prif Swyddog Nyrsio fod dychwelyd i drefniadau gweithio arferol ar y gweill. Maes o law, hoffem i'r Gweinidog roi diweddariad ysgrifenedig inni am y cynnydd sydd wedi ei wneud.

Argymhelliad 2. Dylai'r Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ysgrifennu atom o fewn 6 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn i roi diweddariad am y cynnydd a wneir gan y byrddau iechyd o ran arddangos gwybodaeth mewn modd cyson am lefelau staff nyrsio ar wardiau lle mae adran 25B yn berthnasol.

Adran 25A

71. O ran adran 25A, diffyg canllawiau statudol a gweithredol clir i gefnogi'r adran hon yw'r prif bryder ymhlith y rhai y clywsom ganddynt. Mae'r canllawiau sy'n cyd-fynd ag adrannau 25B a 25C wedi sicrhau dull cyson o weithredu'r adrannau hynny gan fyrddau iechyd. Mewn cyferbyniad, gallai'r diffyg eglurder y clywsom amdano o ran gweithredu'r ddyletswydd gyffredinol yn adran 25A arwain at weithredu mewn modd gwahanol ar draws Cymru.

72. Rydym yn credu ei bod yn werth llunio canllawiau clir pellach i gefnogi adran 25A o'r Ddeddf, ac y byddai hyn yn cefnogi'r gwaith o gynllunio'r gweithlu ac yn sicrhau dull cyson wrth weithredu adran 25A. Nodwn fod y Gweinidog a'r Prif Swyddog Nyrsio o blaid datblygu canllawiau gweithredol yn y maes hwn.

Argymhelliad 3. Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyflwyno canllawiau gweithredol clir i gefnogi'r gwaith o gymhwyso adran 25A mewn modd cyson ar draws byrddau iechyd yng Nghymru. Dylai adrodd yn ôl i ni ar y cynnydd sydd wedi ei wneud ar ddatblygu'r canllawiau hyn o fewn 6 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn.

Seilwaith adrodd a seilwaith digidol

73. Mae'n amlwg y bu ystod o broblemau seilwaith digidol yn ystod gweithrediad cynnar y Ddeddf, ac mae hyn wedi cyfyngu ar allu staff i gasglu a defnyddio data perthnasol.

74. Er bod hyn yn destun gofid, roeddem yn falch o glywed bod rhai datblygiadau wedi bod yn y maes hwn ac, wrth edrych ymlaen, gallwn ddisgwyl set fwy cadarn o ddata yn y cyfnod adrodd nesaf, oherwydd y dull safonol newydd o gasglu data.

75. Fodd bynnag, roedd yn destun pryder inni glywed adroddiadau gan randdeiliaid am heriau parhaus, yn enwedig o ran didoli data a chysylltedd systemau, ac rydym yn credu bod angen deall y trafferthion sylfaenol yn well.

Argymhelliad 4. Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gomisiynu ymarfer mapio ar gyfer y systemau digidol sy'n gysylltiedig â chydymffurfio â gofynion y Ddeddf er mwyn galluogi gwerthusiad gonest o'r gwaith y mae angen ei wneud o hyd i wella effeithlonrwydd a chysylltedd y systemau hynny, a'r amserlenni ar gyfer hyn. Dylai hyn gynnwys ystyried rôl technoleg ddigidol o ran galluogi nyrsys i ddarparu gwell gofal i gleifion.

Gwerthuso'r Ddeddf

76. Mae'r Ddeddf yn ei chyfanrwydd wedi bod mewn grym ers 2018, ac rydym yn cytuno â rhanddeiliaid bod angen myfyrio ar ei gweithrediad a'i heffeithiolrwydd er mwyn pennu'n glir ei heffaith o ran canlyniadau i gleifion a'r gweithlu, ac i alluogi penderfyniadau gwybodus i gael eu gwneud am gyfeiriad y Ddeddf yn y dyfodol, a hynny'n seiliedig ar dystiolaeth. Fodd bynnag, mae peth amheuaeth ynghylch yr amser priodol i wneud y gwaith hwn, ac am hyd a lled y gwaith.

77. Rydym yn derbyn pwynt y Prif Swyddog Nyrsio y byddai'r trafferthion o ran casglu data dros y chwe blynedd diwethaf yn gwneud hon yn dasg anodd i'w gwneud ar hyn o bryd. Fodd bynnag, bydd set ddata fwy cadarn ar gael fel rhan o'r cyfnod adrodd nesaf. Credwn y dylai'r Gweinidog ymrwymo i werthuso'r

Ddeddf cyn gynted â phosibl, unwaith y bydd y data angenrheidiol i gefnogi hyn ar gael.

78. Yn y cyfamser, rydym yn nodi'r diffyg ymchwil cyffredinol i offeryn Lefelau Gofal Cymru, ac yn credu bod rhinwedd mewn comisiynu gwaith ymchwil i'r modd y defnyddiwyd yr offeryn hyd yma, a sut y mae Cymru'n cymharu â gwledydd y DU o ran gwella'r lefelau staffio a diogelwch cleifion.

Argymhelliad 5. Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ymrwymo i gynnal adolygiad llawn ac academiaidd o'r Ddeddf cyn gynted ag y bydd y data i gefnogi'r gwaith hwn ar gael.

Argymhelliad 6. Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gomisiynu gwaith ymchwil i'r defnydd hyd yma o offeryn cynllunio gweithlu Lefelau Gofal Cymru, gan gynnwys ystyried sut y mae Cymru'n cymharu â gwledydd eraill y DU o ran gwella lefelau staff nyrsio a diogelwch cleifion.

79. Rydym yn nodi tystiolaeth y Prif Swyddog Nyrsio a oedd yn dweud bod Grŵp Staff Nyrsio Cymru Gyfan yn cynnal asesiad o effaith y Ddeddf ar waith aml-broffesiwn. Trafodir hyn yn fanylach ym Mhennod 4.

3. Y gweithlu

Yng nghyd-destun prinder nyrsio ar draws y byd, ni fydd deddfwriaeth, ar ei phen ei hun, yn datrys yr heriau hirsefydlog o ran recriwtio a chadw. Mae angen i nyrsio gael ei weld fel proffesiwn deniadol i newydd-ddyfodiaid, ac mae angen ffocws cryf ar gadw staff presennol.

80. Mae'r 'lefel staff nyrsio' yn cyfeirio at y lefel ofynnol o staff nyrsio a'r rhestr ddyletswyddau arfaethedig sydd wedi ei llunio. Fel y nodir yn y canllawiau statudol, mae'r 'lefel ofynnol o staff nyrsio' yn golygu 'cyfanswm nifer y staff sydd ei angen i gyflawni'r rhestr ddyletswyddau arfaethedig (a bennir gan ddefnyddio'r dull trionglog yn adran 25C) a fydd yn galluogi nyrsys i roi gofal i gleifion sy'n bodloni pob gofyniad rhesymol yn y sefyllfa berthnasol'.⁶⁷

81. O dan y Ddeddf, mae person dynodedig (cyfarwyddwr nyrsio bwrdd iechyd fel arfer) yn gyfrifol am gyfrifo lefel y staff nyrsio. Mae hefyd yn ofynnol i gyfarwyddwyr y gweithlu, cyllid a gweithredu gyfrannu at y broses.

82. Wrth graffu ar y Bil yn 2015, cyfeiriwyd yn aml at ddiffyg capasiti'r gweithlu presennol fel y rhwystr mwyaf arwyddocaol i roi'r ddeddfwriaeth ar waith. Dywedodd y Gweinidog Iechyd ar y pryd, yn 2017, fod y Ddeddf wedi'i dylunio gydag amser paratoi hir i baratoi ar gyfer goblygiadau o ran cynllunio'r gweithlu.⁶⁸

Effaith y Ddeddf ar y gweithlu

83. Yn gyffredinol, clywsom fod y Ddeddf, ac yn enwedig adran 25B, wedi cryfhau'r trefniadau o ran cynllunio'r gweithlu drwy ddangos tystiolaeth o ble mae'r bylchau a nifer y nyrsys sydd eu hangen mewn gwirionedd. Ar y pwynt hwn, dywedodd Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru:

⁶⁷ Mae cynnydd o 26.9% wedi'i gynnwys ar gyfer absenoldebau staff a swyddogaethau sy'n lleihau'r amser sydd ar gael i ofalu am gleifion.

⁶⁸ Cwestiwn Ysgrifenedig y Cynulliad, WAQ75332, 5/12/2017

*"If you were to say, prior to the introduction of this law, 'How many nurses does Wales need in the NHS?' the answer would've been guesswork."*⁶⁹

84. Fodd bynnag, teimlai rhanddeiliaid ei bod yn anodd mesur i ba raddau y mae'r Ddeddf yn cael effaith ar recriwtio a chadw nyrsys.⁷⁰

85. Cyfeiriodd y rhanddeiliaid⁷¹ a'r Gweinidog at y prinder nyrsys ar draws y byd gan ddweud na fydd y ddeddfwriaeth, ar ei phen ei hun, yn datrys yr heriau hirsefydlog o ran recriwtio a chadw o fewn y proffesiwn:

*"(...) there is a national and global shortage of nurses and all health boards and trusts are struggling to recruit from a diminishing supply of nurses. There is a legal obligation for us to calculate and take all reasonable steps to maintain the nurse staffing level but this may become more challenging if the supply of registered nurses is not addressed."*⁷²

86. Dywedodd AaGIC wrthym mai llwyth gwaith cynyddol, gwaith sy'n achosi mwyfwy o straen a phrinder staff yw'r tri phrif reswm y mae unigolion yn gadael y gofrestr nyrsio. Aeth ymlaen i ddweud:

*"[er bod y Ddeddf efallai'n cyfnerthu cyfraddau recriwtio a chadw nyrsys] mae elfennau cyfnewidiol eraill yn effeithio ar hyn hefyd, gan gynnwys cyflog ac amodau, arweinyddiaeth a diwylliant sefydliadol, iechyd a lles y gweithlu, datblygiad proffesiynol parhaus, gweithio hyblyg ac ati. Mae hyn hefyd wedi'i waethygu gan effeithiau parhaol y pandemig, anghenion iechyd newidiol y boblogaeth a'r cynnydd yn y galw ar y gwasanaeth iechyd."*⁷³

87. Dywedodd rhanddeiliaid wrthym fod angen dull 'amlochrog' i sicrhau cyflenwad cynaliadwy o staff nyrsio yn y dyfodol. Byddai angen i ddull o'r fath gynnwys ffocws cryfach ar gadw nyrsys, trefniadau gweithio hyblyg, a datblygu rolau a llwybrau newydd i nyrsio e.e. drwy raglenni meithrin nyrsys a

⁶⁹ Cofnod y Trafodion, 19 Hydref 2023, para 33

⁷⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, NS3, NS12

⁷¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, NS1, NS6, NS7, NS8, NS10, NS11

⁷² Tystiolaeth ysgrifenedig, NS6

⁷³ Tystiolaeth ysgrifenedig, NS12

phrentisiaethau.⁷⁴ Dywedwyd wrthym fod nyrsio yn gorfod cael ei weld fel proffesiwn deniadol.⁷⁵

88. Ar y pwynt yma, dywedodd AaGIC fod dull 'amlochrog' yn greiddiol i'w Gynllun Strategol ar gyfer y Gweithlu Nyrsio, sydd i'w gwblhau erbyn diwedd 23/24.

*"Mae AaGIC yn canolbwyntio ar ddatblygu a gweithredu cynlluniau cydgysylltiedig er budd atynnu, recriwtio a chadw staff, gwella addysg a hyfforddiant, trawsnewid y gweithlu a sicrhau cyfleoedd a llwybrau datblygiadol a gyrfaol yn ogystal â lles y gweithlu. (...) Rydym hefyd yn cydnabod bod angen gweithredu i fynd i'r afael â materion tâl ac amodau gwaith cyfredol, yn enwedig coleddu dulliau hyblyg o weithio, er mwyn sicrhau cyflenwad cynaliadwy o staff nyrsio."*⁷⁶

89. Yn benodol ar ddatblygu rolau a llwybrau newydd, clywsom gan nifer o randdeiliaid am y camau sy'n cael eu cymryd o fewn byrddau iechyd i sicrhau cyflenwad hirdymor, cynaliadwy o staff nyrsio yn eu priod feysydd. Mae'r camau hyn yn cynnwys:

- rhaglenni cadetiaid/prentisiaethau mewnol i gynnig llwybr i iechyd gyda chymhwyster lefel 2;
- rhaglen 'y Pum Mlynedd Cyntaf', fel rhaglen diwtoriaeth nyrsio estynedig, yn cynnig llwybr i nyrsys cofrestredig ddatblygu sylfaen gref ar gyfer eu gyrfaedd proffesiynol dilynol;
- tystysgrif lefel 4 - mae'r cymhwyster Tystysgrif mewn Astudiaethau Gofal Iechyd yn cynnig cyfle i Weithwyr Cymorth Gofal Iechyd ennill cymhwyster Lefel 4, gan ganiatáu i Weithwyr Cymorth Gofal Iechyd ddod yn Ymarferwyr Cynorthwyol neu gael mynediad at y radd rhan-amser ym mlwyddyn 2;
- Academi Prentisiaethau: Nod y rhaglen yw cefnogi'r cyfranogwyr i ddod yn nyrsys cofrestredig (yn bennaf) gan barhau mewn cyflogaeth o fewn Bwrdd Iechyd a gweithio fel gweithiwr cymorth cynyddol gymhleth;

⁷⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, NS3, NS6, NS7, NS12, NS13

⁷⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, NS3, NS8

⁷⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, NS12

- Rôl ymarferydd cynorthwyol: darparu cyfleoedd i wella'r gweithlu anghofrestredig.⁷⁷

90. Dywedodd Prifysgol Southampton wrthym fod yn rhaid deall y prinder presennol yn y gweithlu nyrsio yng nghyd-destun methiant hirsefydlog o ran cynllunio'r gweithlu ar draws y GIG. Aeth ymlaen i ddweud:

"[the one element of this failure has been] a tendency to make optimistic assumptions about the effect of change in service provision and the potential to address shortages by changes in skill-mix. It is crucial that future workforce planning does not fall into this trap.

The registered nursing workforce is highly trained and therefore likely to be flexible to meet (currently unknown) future demands. Less highly trained staff less so. While there may be some scope for meeting current demands for nursing care with inputs from other professional groups this is unlikely to have a major impact on the demand for nurses in most settings.

Clearly, robust forecasting of future demand does not rectify the shortfall but at least this will mean that targets realistically reflect what is needed."⁷⁸

91. Soniodd y Brifysgol am y ffaith bod tystiolaeth yn Lloegr o lai a llai o gymysgedd sgiliau, gyda niferoedd staff cymorth yn cynyddu'n gyflymach na nyrsys cofrestredig. Roedd hyn, yn ôl y Brifysgol, er gwaethaf tystiolaeth mewn ymchwil ddiweddar sy'n awgrymu bod amnewid Nyrsys Cofrestredig am staff sydd wedi eu hyfforddi i raddau llai yn annhebygol o fod yn ateb effeithlon neu effeithiol i brinder staff.⁷⁹

Cydymaith nyrsio cofrestredig

92. Ar 19 Ionawr 2024, cyhoeddodd y Gweinidog ei bwriad⁸⁰ i gyflwyno rôl nyrsio band 4 rheoleiddiedig ar gyfer y GIG yng Nghymru, a fydd yn cael ei galw'n Gydymaith Nyrsio Cofrestredig. Mae hyn yn adlewyrchu'r dull a ddefnyddiwyd eisoes yn Lloegr lle mae'r rôl, yn ôl y Gweinidog, wedi'i disgrifio fel y model gorau o

⁷⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, NS7, NS8, NS14

⁷⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, NS15

⁷⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, NS15

⁸⁰ Bydd y newid polisi hwn yn gofyn am ddiwygiadau deddfwriaethol i'r Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth (2001). Mae'r pwerau hyn wedi eu cadw nôl gan Lywodraeth y DU.

ehangu mynediad at nyrsio ac yn rhoi'r cyfle i aelodau newydd, addysgedig o'r gweithlu nyrsio bontio'r bwlch rhwng Cymorth Gofal Iechyd. Gweithwyr a Nyrsys Cofrestredig.⁸¹

93. Mae penderfyniad y Gweinidog yn dilyn gwaith prosiect a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i archwilio'r opsiynau a'r cyfleoedd i lywio safbwynt polisi ac argymhellion ar gyfer dyfodol gweithlu nyrsio band 4 ar draws GIG Cymru. Dywedodd y Gweinidog:

*"Yn ei hanfod, canlyniad y prosiect yw'r cadarnhad bod rhanddeiliaid clinigol ac academaidd ar draws Cymru eisiau i'r rôl band 4 mewn nyrsio gael ei rheoleiddio i ddiogelu'r cyhoedd yn well ac i leihau risg, ynghyd â sicrhau cysondeb o ran safonau proffesiynol ac addysgol."*⁸²

94. Cadarnhaodd y Gweinidog y bydd, yn ddiweddarach eleni, yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar ddatblygu'r paramedrau o ran y rôl newydd ar lefel ymarferol.

95. Yn dilyn cyhoeddiad y Gweinidog, fe wnaeth Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru ysgrifennu atom⁸³ i ddweud na ddarparwyd atebion i rai cwestiynau allweddol ynghylch y polisi gan y Gweinidog cyn y cyhoeddiad, yn enwedig mewn perthynas â chyllid. Dywedodd Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru y gallai cyflwyno'r rôl newydd fod yn gam cadarnhaol, cyn belled â'i bod yn cael ei hariannu'n llawn ac yn ychwanegol at y gweithlu presennol. Dadleuodd y Coleg na ddylid caniatáu amnewid nyrsys cofrestredig, a hynny am resymau diogelwch cleifion.

96. Fe wnaeth Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru hefyd alw ar y Gweinidog i ystyried, er diogelwch cleifion, ymestyn y dyletswyddau yn adran 25B o Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 i gynnwys pob maes y bydd staff sy'n gweithio fel cydymaith nyrsio cofrestredig yn cael eu cyflogi ynddynt, y tu mewn a'r tu allan i'r GIG.

⁸¹ Datganiad ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru: *Bwriad Polisi ar gyfer cyflwyno rôl nyrsio band 4 rheoleiddiedig ar gyfer y GIG yng Nghymru, yn amodol ar y diwygiadau angenrheidiol i ddeddfwriaeth y DU*, 19 Ionawr 2024

⁸² Datganiad ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru: *Bwriad Polisi ar gyfer cyflwyno rôl nyrsio band 4 rheoleiddiedig ar gyfer y GIG yng Nghymru, yn amodol ar y diwygiadau angenrheidiol i ddeddfwriaeth y DU*, 19 Ionawr 2024

⁸³ [Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru, 31 Ionawr 2024, 12 Chwefror 2024](#)

Costau

97. Daw cyllid ar gyfer lefel y staff nyrsio o ddyraniad refeniw byrddau / ymddiriedolaethau iechyd, gan ystyried pwyntiau cyflog gwirioneddol y staff a gyflogir ar eu wardiau. Fe wnaeth Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru gydnabod y bu cost ariannol o weithredu a chynnal lefelau staff nyrsio oherwydd yr angen i gynyddu niferoedd nyrsys. Fodd bynnag, dadleuwyd bod y gost yn angenrheidiol ar gyfer diogelwch cleifion ac na ddylid ystyried y gost yn faich.⁸⁴

98. Ar y pwynt yma, dywedodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe na ellir diystyru'r adnoddau sylweddol sydd eu hangen i fodloni gofynion y Ddeddf, ar lefel weithredol ac ar lefel gorfforaethol. Aethant ymlaen i ddweud:

"The Act stipulates that all Section 25B wards on-costs (to cover sickness, annual leave and study) are currently set at 26.9%,

is there the opportunity to review these and ensure parity across all services?"⁸⁵

Tystiolaeth gan y Gweinidog

99. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, roedd y Gweinidog yn glir wrth ddweud:

"Ni cheir atebion yn Neddf 2016 i'r heriau staffio sylfaenol rydym yn eu hwynebu, ac mae Llywodraeth Cymru yn ymchwilio'n weithredol i bob strategaeth sydd ar gael i wella cyfraddau cadw,recrwtio a swyddi gwag ac i leihau gwariant ar staff asiantaeth."⁸⁶

100. Fe wnaeth y Gweinidog gydnabod bod angen camau sylweddol i gryfhau'r gweithlu gofal iechyd, nid yn unig i fodloni gofynion y ddeddfwriaeth ar rai wardiau, ond i sicrhau GIG sy'n fwy cadarn ac effeithiol yn ei gyfanrwydd.⁸⁷

101. Dywedodd y Gweinidog a'r Prif Swyddog Nyrsio wrthym fod nifer o ymyriadau yn eu lle ar hyn o bryd i gefnogi twf y gweithlu, gan gynnwys mesurau sy'n ymwneud â recrwtio a chadw. Cadarnhaodd y Prif Swyddog Nyrsio fod Cymru wedi cynyddu nifer y nyrsys i'r nifer uchaf erioed, a hynny dros 40,127, a

⁸⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, NS5

⁸⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, NS4

⁸⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

⁸⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

dywedodd y byddai hyn yn golygu y gellir gwneud rhai newidiadau a gwelliannau cyson a chynaliadwy i ofal cleifion.⁸⁸

102. Wrth drafod cadw nyrsys, cyfeiriodd y Gweinidog at y gwaith sy'n cael ei wneud drwy Gynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Gweithlu, gan gynnwys cynllun ar gyfer cadw nyrsys a gyhoeddwyd ym mis Medi 2023, sydd â'r nod o helpu i gadw nyrsys a gyflogir yn sefydliadau GIG Cymru.⁸⁹

103. Wrth drafod recriwtio, rhoddodd y Gweinidog fanylion am ymgyrch recriwtio ar ei newydd wedd ar gyfer GIG Cymru, ac ymgyrch o ran hyfforddiant. Dywedodd y Gweinidog wrthym fod y gyllideb hon wedi cynyddu a bod Llywodraeth Cymru yn gwario £0.25 biliwn y flwyddyn ar hyfforddi pobl ar gyfer y GIG yng Nghymru.⁹⁰ At hynny, roedd y lleoedd ar gyfer hyfforddi nyrsys wedi cynyddu 54.3 y cant, a lleoedd hyfforddi bydwreigiaeth wedi cynyddu 41.8 y cant, sef y niferoedd comisiwn uchaf sydd wedi'u gweld yn ôl y Prif Swyddog Nyrsio. Roedd yn cydnabod nad yw'r gyfradd llenwi swyddi yn cyfateb i niferoedd y comisiwn, a bod angen gwneud mwy o waith i wneud y proffesiwn yn ddeniadol eto.⁹¹ Clywsom nad oes ffordd anghywir o ddod i'r proffesiwn nyrsio yng Nghymru, a bod dulliau anhraddodiadol eraill o dyfu'r gweithlu ar waith.

104. Soniodd y Prif Swyddog Nyrsio hefyd am y gwaith sy'n cael ei wneud gydag AaGIC mewn perthynas â myfyrwyr nyrsio rhyngwladol, gan ddweud bod dros 140 o fyfyrwyr nyrsio rhyngwladol wedi'u hychwanegu i leoedd hyfforddi yng Nghymru, gan ddweud mai dyma'r tro cyntaf i hyn gael ei wneud yn y DU.

105. O ran costau gweithredu'r Ddeddf, cyfeiriodd y Gweinidog at y "newid trawiadol" sydd i'w weld ers 2016 mewn gwariant ar asiantaethau, a nododd ei fod wedi codi o £45.8 miliwn yn 2015-16 i £154.7 miliwn yn 2022-23. Dywedodd, er na fyddai'n "llunio casgliadau achosol yn awgrymu bod y cynnydd hwn o ganlyniad uniongyrchol i'r Ddeddf yn dod i rym", ei bod yn rhesymol tybio y byddai'r galw cynyddol am staff yn sgil cyfrifiadau'r Ddeddf (gan gynnwys recriwtio o asiantaethau) wedi dwysáu'r broblem.⁹²

106. Gwnaeth yn glir ei bwriad i leihau gwariant ar asiantaethau, gan ddweud bod Llywodraeth Cymru wedi cytuno i weithio ar y cyd â sefydliadau iechyd ac

⁸⁸ [Cofnod y Trafodion, 6 Rhagfyr 2023](#), para 45

⁸⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

⁹⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, a [Chofnod y Trafodion, 6 Rhagfyr 2023](#), para 42

⁹¹ [Cofnod y Trafodion, 6 Rhagfyr 2023](#), para 46-47

⁹² Tystiolaeth ysgrifenedig, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

undebau i sbarduno gostyngiad mewn gwariant ar asiantaethau ledled Cymru a darparu cymhellion ar gyfer cyflogaeth safonol o fewn GIG Cymru:

“As a result of this collective action, management information provided by health organisations predict a significant reduction in agency spend this year of approximately £50m (15%).”⁹³

107. Cyfeiriodd y Gweinidog hefyd at y cynnydd yn nifer y Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd a'r cyllid ar gyfer y rolau hyn dros yr un cyfnod (2015-2023), gan ddweud bod dulliau o ddirprwyo dyletswyddau nyrsio wedi datblygu yn y blynyddoedd diwethaf, ac y gallai hyn esbonio'r twf yn y maes hwn.⁹⁴

Ein barn ni

108. Mae'n amlwg bod y Ddeddf wedi cryfhau'r gwaith o gynllunio'r gweithlu drwy amlygu lle mae'r bylchau yn y gweithlu presennol a rhoi tystiolaeth o nifer y nyrsys sydd eu hangen i ddiwallu anghenion cleifion. Ond, o ran sicrhau cyflenwad hirdymor, cynaliadwy o nyrsys, mae cymaint o ffactorau sy'n dylanwadu ar recriwtio a chadw staff nyrsio fel mai dim ond rhan o'r ateb y gall deddfwriaeth fod, yn hytrach na'r ateb cyfan.

109. Rydym, wrth gwrs, yn ymwybodol bod prinder nyrsys yn broblem ryngwladol, a bod angen dull amlochrog i fynd i'r afael â hyn. Mae'n amlwg bod gwaith yn cael ei wneud yn y maes hwn gan Lywodraeth Cymru, AaGIC a byrddau iechyd mewn perthynas â recriwtio, cadw a chyfleoedd gweithio hyblyg, ac i ddatblygu rolau a llwybrau newydd i nyrsio. Yn fwyaf diweddar, nodwn y cyhoeddiad gan y Gweinidog ei bod wedi llofnodi memorandwm cyd-ddealltwriaeth gyda llywodraeth Kerala a fydd yn arwain at recriwtio 250 o nyrsys, meddygon a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill i Gymru yn ystod 2024/25.⁹⁵ Gwerthfawrogwn y bydd y gwaith hwn yn cymryd amser cyn arwain at ganlyniadau ond, o ystyried bod y gweithlu'n faes mor allweddol, gofynnwn i'r Gweinidog ysgrifennu atom maes o law gyda diweddariad am y cynnydd sydd wedi ei wneud gyda'r camau gweithredu hyn.

Argymhelliad 7. Dylai'r Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol roi diweddariad ysgrifenedig, o fewn 6 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn, ar lwyddiant y camau gweithredu i wella'r sefyllfa o ran recriwtio a chadw nyrsys a sicrhau

⁹³ Tystiolaeth ysgrifenedig, y Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

⁹⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, y Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

⁹⁵ Datganiad ysgrifenedig, *Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Llywodraeth Kerala ar gyfer lleoli gweithwyr iechyd proffesiynol o India i Gymru*, 2 Mawrth 2024

cyflenwad cynaliadwy o nyrsys, gan gynnwys cyfeiriad at recriwtio rhyngwladol a'r defnydd o staff asiantaeth.

110. Yn fwy cyffredinol, bydd angen sicrhau bod y cymysgedd cywir o sgiliau ymhlith staff yn parhau ar gyfer diogelwch a gofal cleifion, gan gydnabod bod nyrsys cofrestredig yn aelodau hyfforddedig iawn o'r gweithlu. Ar y pwynt yma, nodwn gyhoeddiad diweddar y Gweinidog ynghylch cyflwyno rolau cydymaith nyrsio cofrestredig yng Nghymru.

111. Hoffem dynnu sylw'r Gweinidog at farn Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru ynglŷn â'r rôl newydd⁹⁶ ac, yn benodol, gwestiynau'r Coleg am gyllid ar gyfer y rôl ac a fydd y rolau hyn yn ychwanegiad at y gweithlu presennol, ac nid yn cymryd lle nyrsys cofrestredig. Hoffem i'r Gweinidog roi sylw i'r pwyntiau hyn yn ei hymateb i'n hadroddiad, a nodi sut y bydd gofynion y Ddeddf yn gymwys i rôl y cydymaith nyrsio cofrestredig.

Argymhelliad 8. Dylai'r Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:

- gadarnhau y caiff y gwaith o gyflwyno rôl y cydymaith nyrsio cofrestredig ei ariannu'n llawn, a nodi o ble y daw'r cyllid hwnnw;
- rhoi sicrwydd y bydd rôl cydymaith nyrsio cofrestredig yn ychwanegol at y gweithlu presennol ac nid yn lle nyrsys cofrestredig; a nodi i ba raddau y mae'r Ddeddf yn lliniaru'r risg o hynny;
- nodi sut y bydd gofynion y Ddeddf yn gymwys i rôl y cydymaith nyrsio cofrestredig; a
- darparu manylion am unrhyw asesiad o'r risg i ddiogelwch cleifion sydd wedi'i wneud neu a fydd yn cael ei wneud ym mhob maes lle y bydd cydymaith nyrsio cofrestredig yn cael ei gyflogi.

⁹⁶ [Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru](#), 31 Ionawr 2024, 12 Chwefror 2024

4. Dyfodol y Ddeddf

Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud i gefnogi'r gwaith o ymestyn y Ddeddf i leoliadau pellach, ond cymysg yw'r farn am hyn. Mae angen ystyried sut y dylid defnyddio'r Ddeddf orau yn y dyfodol i gefnogi modelau newydd ac esblygol o weithio aml-broffesiwn.

112. Sefydlwyd Rhaglen Staff Nyrsio Cymru Gyfan i gefnogi GIG Cymru i gyflawni gofynion Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 a dilyn dull 'Unwaith i Gymru'. Mae'r Rhaglen yn rhan o AaGIC, ac mae ganddi bum ffrwd waith:

- **cleifion mewnol meddygol a llawfeddygol aciwt sy'n oedolion** - mae dyletswydd 25B i gyfrifo/cynnal lefelau staff nyrsio wedi bod yn berthnasol i wardiau aciwt oedolion ers mis Ebrill 2018
- **cleifion mewnol pediatrig** - mae dyletswydd 25B i gyfrifo/cynnal lefelau staff nyrsio wedi bod yn berthnasol i wardiau pediatrig o fis Hydref 2021 ymlaen
- **cleifion mewnol iechyd meddwl**
- **ymweliadau iechyd**
- **nyrsys ardal**

113. Mae pob ffrwd waith yn gweithio tuag at ddatblygu a phrofi offeryn cynllunio'r gweithlu sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n benodol i'w faes.

114. Grŵp Staff Nyrsio Cymru Gyfan, gyda chynrychiolwyr o holl sefydliadau GIG Cymru a Llywodraeth Cymru, yw'r grŵp cyflawni ar gyfer y rhaglen gyffredinol.

Ymestyn y Ddeddf hon i leoliadau pellach

115. Mae adran 25B ar hyn o bryd yn gymwys i'r gyntaf o'r ddwy ffrwd waith – wardiau meddygol a llawfeddygol aciwt i oedolion, a wardiau cleifion mewnol pediatrig. Ar wahân, mae gwaith wedi'i wneud i ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth i

gefnogi staff nyrsio mewn lleoliadau pellach, yn enwedig ar gyfer wardiau iechyd meddwl cleifion mewnol, ymwelwyr iechyd, a nyrsys ardal.

116. Roedd Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru a Mind Cymru ill dau yn gefnogwyr cryf i ymestyn y Ddeddf i wardiau iechyd meddwl cleifion mewnol.⁹⁷ Dadleuodd Mind Cymru nad yw lleisiau cleifion yn cael eu clywed mor rhwydd ag y byddent pe bai hawl deddfwriaethol i lefel staffio diogel, ac y byddai ymestyn y Ddeddf yn sefydlu dyletswydd o ran y gofal y gall claf ei ddisgwyl ac y gall staff anelu tuag ato. Roeddent hefyd yn teimlo y byddai hyn yn cynrychioli dull rhagweithiol o adeiladu gweithlu cydnerth a chywir.⁹⁸

117. Galwodd Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru a Mind Cymru ar Lywodraeth Cymru i osod amserlen ar gyfer ymestyn adran 25B i leoliadau cleifion mewnol iechyd meddwl, gyda Mind Cymru yn dweud y dylai hyn fod yn elfen allweddol o strategaeth iechyd meddwl nesaf Llywodraeth Cymru:

“A duty to calculate and maintain safe staffing levels in inpatient settings would fundamentally improve the state of mental health care in Wales. (...) Mental health nursing is the second biggest field of pre-registration nursing, with increasing investment from the Welsh government, but the same set of issues keep reappearing, and patients are not receiving the level of care they deserve.”⁹⁹

118. Yn ogystal â wardiau iechyd meddwl cleifion mewnol, argymhellodd Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru y dylai Llywodraeth Cymru amlinellu'r amserlen ar gyfer ymestyn Adran 25B i leoliadau cymunedol, ac adeiladu ar y sylfaen dystiolaeth bresennol i ymestyn Adran 25B i leoliadau eraill.¹⁰⁰

119. Ar y pwynt olaf hwn, soniodd Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru am bryderon nad yw'n ymddangos bod gwaith i ymestyn y Ddeddf yn mynd rhagddo mor gyflym yr hoffent iddo ei wneud.¹⁰¹ Dywedodd y Coleg fod gwaith Rhaglen Staff Nyrsio Cymru Gyfan i ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth a'r dulliau perthnasol i helpu i

⁹⁷ Mae Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru wedi [cyflwyno deiseb](#) yn flaenorol yn galw am ymestyn adran 25B o'r Ddeddf i bob lleoliad lle darperir gofal nyrsio, gan ddechrau gyda wardiau nyrsio cymunedol a wardiau iechyd meddwl ar gyfer cleifion mewnol.

⁹⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, NS9

⁹⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, NS9

¹⁰⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, NS5

¹⁰¹ [Cofnod y Trafodion. 19 Hydref 2023](#), para 41

ymestyn y Ddeddf wedi'i oedi, na chafwyd datganiad swyddogol gan Lywodraeth Cymru am hyn, ac nad yw'n glir a yw'r oedi dros dro neu'n barhaol.¹⁰²

120. Wrth ymateb i bryderon y Coleg Nyrsio Brenhinol, cadarnhaodd Lisa Llewelyn o Raglen Staff Nyrsio Cymru Gyfan nad oedd y rhaglen wedi'i gohirio, ond ei bod bellach mewn cyfnod pontio lle adolygir y sefyllfa.¹⁰³ Pan ofynnwyd iddi a yw'n dal yn fwriad i ymestyn adran 25B o'r Ddeddf i'r lleoliadau hyn, dywedodd Lisa Llewelyn wrthym fod hynny yn rhywbeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei ystyried.

¹⁰⁴

121. Nid oedd pob ymatebydd yn cefnogi ymestyn y Ddeddf. Dywedodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro nad oedden nhw'n cefnogi ymestyn y Ddeddf o dan yr egwyddorion un-proffesiwn presennol, a dywedodd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys nad oes digon o dystiolaeth ar hyn o bryd i gefnogi ei hymestyn i leoliadau pellach.¹⁰⁵

122. Soniodd rhai rhanddeiliaid, gan gynnwys AaGIC, fod angen gwneud rhagor o waith i brofi dulliau cenedlaethol a chryfhau'r sylfaen dystiolaeth sydd ei hangen er mwyn sicrhau y cynhwysir asesiad gwrthrychol o'r gwerth a'r effaith ychwanegol.¹⁰⁶ Ar y pwynt yma, dywedodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda:

"Work on developing (...) tools for health visiting, district nursing and mental health inpatient wards have been undertaken as part of the national nurse staffing programme. The three respective tools are at different stages of development and there is still work to do to establish the evidence base of their applicability in Welsh clinical settings.

The secondments for the dedicated work stream programme leads for Mental Health, District Nursing and Health Visiting came to an end in March 2023 and, although there are plans for work to continue, this will have an impact on the timelines for progressing this work."¹⁰⁷

¹⁰² Tystiolaeth ysgrifenedig, NS5

¹⁰³ Cofnod y Trafodion, 19 Hydref 2023, para 261

¹⁰⁴ Cofnod y Trafodion, 19 Hydref 2023, para 269

¹⁰⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, NS3, NS8

¹⁰⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, NS12

¹⁰⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, NS7

123. Clywsom hefyd gan AaGIC fod angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod y systemau gwybodeg angenrheidiol ar waith ledled Cymru i gefnogi'r defnydd o'r dulliau:¹⁰⁸

*"Cyn cyflwyno unrhyw newid i'r ddeddfwriaeth, mae angen datblygu system TG genedlaethol gyda datrysiadau digidol a chymorth dadansoddol data er mwyn sicrhau bod data yn cael ei goladu a'i ddefnyddio'n effeithiol ac yn effeithlon ar lefel leol a chenedlaethol."*¹⁰⁹

124. Dywedodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg wrthym, er bod ffrydiau gwaith ar gyfer iechyd meddwl, nyrsys ardal, ac ymwelwyr iechyd yn mynd rhagddynt, collwyd rheolaeth ganolog dros y ffrydiau gwaith gwahanol hyn, a dywedodd y Bwrdd fod hyn wedi arwain at gymryd camau gweithredu ar gyflymder gwahanol ar draws Cymru gan ddibynnu ar flaenoriaethau pob bwrdd iechyd.¹¹⁰ Yn ôl y Bwrdd Iechyd:

*"Expanding the Act to additional areas will require careful consideration of the budgetary implications. (...) It is crucial to periodically review the Act to ensure it remains relevant in the evolving healthcare environment and adaptable to changes in care delivery methods."*¹¹¹

125. Nodwyd hefyd nad yw rhai meysydd, gan gynnwys unedau gofal critigol ac unedau brys, yn dod o dan adran 25B ar hyn o bryd ond eu bod yn wynebu pwysau sylweddol a heriau staffio.¹¹² Clywsom y byddai angen gwneud rhagor o waith i ddeall y sylfaen dystiolaeth ar gyfer lleoliadau nad oes ganddynt ffrwd waith ffurfiol ar hyn o bryd fel rhan o raglen staff nyrsio Cymru gyfan, megis gofal critigol.¹¹³

Tystiolaeth gan y Gweinidog

126. Dywedodd y Gweinidog wrthym nad oedd o blaid ymestyn y Ddeddf i leoliadau gwahanol:

"I think writing a law that says 'You've got to staff in this way—'. If you haven't got the staff, you just can't meet the law. So, I just

¹⁰⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, NS11, NS12, NS13

¹⁰⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, NS12

¹¹⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, NS10

¹¹¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, NS10

¹¹² Tystiolaeth ysgrifenedig, NS8

¹¹³ Tystiolaeth ysgrifenedig, NS13

*think you've got to be really practical about how this works, at a time when staffing is challenging.*¹¹⁴

127. Wrth gyfeirio at ymestyn y Ddeddf i leoliadau pediatrig, dywedodd y Gweinidog fod hyn wedi bod “yn bosibl i raddau helaeth oherwydd y tebygrwydd agos rhwng pediatreg a sefyllfaoedd meddygol a llawfeddygol oedolion gan fod y ddau wedi’u lleoli ar wardiau sy’n trin cyflyrau iechyd corfforol ac yn defnyddio systemau tebyg”, sy’n golygu mai dim ond rhywfaint o newid oedd ei angen i’r dulliau a’r prosesau presennol cyn eu cymhwyso yn y lleoliad newydd.¹¹⁵

128. Nid oedd hyn, meddai, yn wir am y tair ffrwd waith arall:

“Mae gwasanaethau ymwelwyr iechyd a nyrsys ardal ill dau yn gweithio yn y gymuned yn hytrach nag ar wardiau, ac mae gan wasanaethau iechyd meddwl eu heriau unigryw eu hunain am eu bod yn fwy amlddisgyblaethol eu natur ac yn gorfod asesu aciwtedd salwch meddwl yn ogystal â salwch corfforol..”¹¹⁶

“nid yw'r math o brofion ailadroddol, dwys i greu sylfaen dystiolaeth a gynhaliwyd ar gyfer yr adnoddau oedolion a phediatrig yn cael eu cynnal ar hyn o bryd oherwydd diffyg llwyfannau digidol i'w cynnal, a chydabyddiaeth gynyddol yn y system fod angen symud oddi wrth ddull un proffesiwn o gynllunio'r gweithlu.”¹¹⁷

129. Yn ei thystiolaeth, nododd y Prif Swyddog Nyrsio yr amserlenni ar gyfer profi dulliau cynllunio’r gweithlu. Esboniodd fod y dulliau yn cael eu datblygu o’r newydd yng Nghymru, sy’n cymryd tua dwy flynedd, ac yna bydd rheoliadau yn cael eu gosod yn y Senedd i ymestyn adran 25B i bob lleoliad penodol. Disgrifiodd hyn fel ‘dull beichus’, gan ddweud bod yr estyniad i leoliadau pediatrig wedi cymryd chwe blynedd.¹¹⁸ Teimlai’r Prif Swyddog Nyrsio fod yna ffyrdd gwahanol, mwy pragmatig ac ystywyth o weithio, a allai annog y defnydd gorau o offer, yn hytrach nag ymestyn y Ddeddf.¹¹⁹

130. Cyfeiriodd y Gweinidog a’r Prif Swyddog Nyrsio at Offer Lefelau Gofal Cymru drafft ar gyfer iechyd meddwl ac ymweliadau iechyd sydd wedi cael eu llunio ac

¹¹⁴ Cofnod y Trafodion, 6 Rhagfyr 2023, para 100

¹¹⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

¹¹⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

¹¹⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

¹¹⁸ Cofnod y Trafodion, 6 Rhagfyr 2023, para 110

¹¹⁹ Cofnod y Trafodion, 6 Rhagfyr 2023, para 110

sy'n cael eu defnyddio a'u profi ar hyn o bryd gan fyrddau iechyd o dan adran 25A (y ddyletswydd gyffredinol eang sy'n galluogi byrddau iechyd i ddefnyddio offer mewn unrhyw leoliad arall). Awgrymodd y Prif Swyddog Nyrsio:

*"(...) as part of the refreshed work of the all-Wales nurse staffing programme going forward, we could commission a mapping of all such other tools that are available and develop the principles and guidance to ensure that there's a consistent approach across Wales, instead of calling for this long, protracted approach to extension through legislation."*¹²⁰

131. Cyfeiriodd yn ôl at ddatganiad yr oedd wedi'i wneud yn flaenorol ar y pwnc hwn na fyddai addewid deddfwriaethol na ellir ei gyflawni yn sicrhau'r nifer cywir o staff yn y system i ddiwallu anghenion gofal pobl Cymru, ond bod cynllunio a modelu'r gweithlu'n dda; strategaethau recriwtio a chadw effeithiol, gan gynnwys rhaglenni safonol o oruchwyliaeth glinigol a thiwtoriaeth ar gyfer ein staff nyrsio a bydwreigiaeth, a recriwtio rhyngwladol yn helpu i gyflawni hynny.¹²¹

A yw'r Ddeddf wedi ei diogelu at y dyfodol?

132. Roedd ffocws un-proffesiwn y Ddeddf yn bryder i bron pob un o'r ymatebwyr, gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn dweud:

*"patients outcomes are not defined by a single profession."*¹²²

133. Aeth ymlaen i ddweud,

*"(...) the Nurse Staffing Levels (Wales) Act does not lend itself to consider the broader multi-professional team around the patient."*¹²³

134. Clywsom, er nad yw natur un-proffesiwn y Ddeddf o reidrwydd wedi bod yn rhwystr i waith aml-broffesiwn, mae'n amlwg bod angen ystyried y ffordd orau o ddefnyddio'r Ddeddf yn y dyfodol i gefnogi modelau newydd ac esblygol o weithio aml-broffesiwn a'r model 'tîm o amgylch y claf'.¹²⁴

"Wrth i wasanaethau iechyd a gofal barhau i ddatblygu ac esblygu mewn ymateb i anghenion iechyd a gofal newidiol

¹²⁰ Cofnod y Trafodion, 6 Rhagfyr 2023, para 110

¹²¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

¹²² Tystiolaeth ysgrifenedig, NS8

¹²³ Tystiolaeth ysgrifenedig, NS8

¹²⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, NS1, NS2, NS3, NS4, NS6, NS7, NS8, NS10, NS11, NS12, NS13

poblogaeth Cymru, mae'r gweithlu hefyd yn trawsnewid ac yn cydnabod sgiliau a chyfraniad gwerthfawr eraill o fewn y tîm amlbroffesiwn i ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar y claf.

Ers llunio a chyflwyno'r Ddeddf, mae datblygiadau a gwelliannau gwasanaeth ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol wedi adlewyrchu athroniaeth y dull amlbroffesiynol o weithio, er mwyn sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu gan y person cywir â'r sgiliau priodol ar yr adeg iawn.

Wrth i'r Ddeddf ddatblygu, mae'n bwysig bod darpariaeth gwasanaeth amlbroffesiynol ac amlddisgyblaethol yn cael ei chydnabod a'i hystyried er budd cynaliadwyedd a fforddiadwyedd y system iechyd a gofal."¹²⁵

135. Roedd nifer o ymatebion hefyd yn tynnu sylw at ddatblygiad Band 4 a rolau cymorth eraill, er enghraifft rôl yr Ymarferydd Cynorthwyol, nad yw'r Ddeddf yn ymdrin â hi'n benodol ar hyn o bryd.¹²⁶

"Models that are currently in existence include new roles such as Dietetic Assistants and Rehabilitation Technicians which work alongside nursing roles as well as other highly skilled professionals.

The workforce planning template in use currently focuses on uniprofessional legislation and does not fully reflect the multi-professional focus required moving forward."¹²⁷

136. Mewn gwrthgyferbyniad, roedd ymateb Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru yn canolbwyntio ar nyrsys cofrestredig a gweithwyr cymorth gofal iechyd o dan eu goruchwyliaeth nhw yn unig. Dadleuodd y Coleg nad oedd y Ddeddf yn rhwystro dull aml-broffesiwn, ac y gallai fod elfennau o'r Ddeddf a chanllawiau statudol y gellid eu cyflwyno ar draws tîm aml-broffesiwn, er enghraifft mewn perthynas â defnyddio barn broffesiynol:

"(...) there is capacity in the current methodology to allow for an adjustment to the nurse staffing level because of the impact of a more multiprofessional, team-around-the-patient type of

¹²⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, NS12

¹²⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, NS1, NS2, NS6, NS7, NS8

¹²⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, NS8

approach. Some of that hasn't yet been tested, but there's no reason not to test that."¹²⁸

137. Aeth y Coleg ymlaen i ddweud:

"I think it's also important to remember that the nursing team are the only team that are there 24 hours a day. (...) [The Act] doesn't hinder multidisciplinary working, but it does ensure safe care during those 24 hours of the day.

Because multidisciplinary working is the additional clinical expertise that comes in as well; each expert has their own role, but, in terms of keeping a ward safe, and outcomes for patients, that's what the safe staffing legislation does."¹²⁹

138. Clywsom dystiolaeth hefyd am yr angen am ddull aml-broffesiwn wrth gynllunio'r gweithlu. Ar y pwynt hwn, dywedodd Gareth Howells, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Bae Abertawe:

*"We have to really be clear about how many therapists and the like we need to support our wards and our in-patient areas. But I've got wards where I know I've got a full [nursing] establishment, but if I haven't got an occupational therapist, I can't discharge anyone."*¹³⁰

Tystiolaeth gan y Gweinidog

139. Yn unol ag ymatebwyr eraill, cyfeiriodd y Gweinidog hefyd at y dull un-proffesiwn a ddefnyddiwyd gan y Ddeddf, gan ddweud, hyd yn oed pan gyflwynwyd y Bil gyntaf yn 2014, fod yr agenda gofal iechyd darbodus a datblygiad y nodau i symud gofal allan o ysbytai ac i mewn i leoliadau cymunedol wedi awgrymu bod angen cynyddol am ddull aml-broffesiwn o gynllunio'r gweithlu.¹³¹

140. Cadarnhaodd y Gweinidog, er bod rhai pethau cadarnhaol iawn wedi dod yn sgil y Ddeddf hon, mae modelau amgen i ddeddfwriaeth yn gallu cyflawni'r canlyniadau y mae gennym ni i gyd ddiddordeb ynddynt.¹³² Aeth ymlaen i ddweud:

¹²⁸ Cofnod y Trafodion, 19 Hydref 2023, para 47

¹²⁹ Cofnod y Trafodion, 19 Hydref 2023, para 49

¹³⁰ Cofnod y Trafodion, 19 Hydref 2023, para 230

¹³¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

¹³² Cofnod y Trafodion, 6 Rhagfyr 2023, paragraffau 208-209

(...) what we're not interested in doing is spending a whole lot of time adjusting the Act, changing the Act, enhancing the Act, because none of those things are simple. Those things take time, they're expensive, they're complicated, and at the moment I think there are other issues in the NHS that need our pressing attention. And if there are alternative mechanisms for us to get there, then I'd rather explore those.”¹³³

141. Dywedodd fod yn rhaid ystyried “modelau gweithlu newydd” ac “nad yw dulliau traddodiadol yn debygol o roi atebion i broblemau sy’n dod i’r amlwg”. Teimlai fod “byrddau iechyd yn awyddus i arloesi yn hyn o beth ac yn canfod eu bod yn anghytuno’n sylfaenol â natur un proffesiwn y ddeddfwriaeth”.¹³⁴

142. Dywedodd wrthym:

“Sefydlwyd is-grŵp o fewn Grŵp Staff Nyrsio Cymru Gyfan ym mis Awst 2023 er mwyn asesu effaith y Ddeddf ar drefniadau gweithio amlbroffesiynol ac, i’r gwrthwyneb, yr effaith y gallai modelau gweithio amlbroffesiynol presennol a sefydledig ei chael ar allu byrddau iechyd i gyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf.

Disgwyliwn i’r grŵp hwnnw gwblhau ei ddadansoddiad ddechrau 2024 a gobeithiwn y bydd yn helpu i lywio rhai atebion i’r hyn sy’n ymddangos ar hyn o bryd i fod yn rhwystr anfwriadol a grëwyd gan y ddeddfwriaeth.”¹³⁵

Ein barn ni

Ymestyn y Ddeddf

143. Drwy gydol y broses o ddatblygu’r Bil a thrwy ei hynt drwy’r Senedd, roedd bwriad clir i ymestyn gofynion adran 25B i leoliadau gofal iechyd eraill yn y dyfodol. Hyd yn hyn, mae gwaith sylweddol wedi’i wneud i ddatblygu’r sylfaen dystiolaeth i gefnogi staff nyrsio mewn lleoliadau pellach, yn enwedig ar gyfer wardiau iechyd meddwl cleifion mewnol, ymwelwyr iechyd, a nyrsys ardal.

144. Er gwaethaf hyn, roedd safbwyntiau cymysg ymhlith y rhai y clywsom ganddynt ynghylch a ddylid ymestyn y Ddeddf ar hyn o bryd. Roedd dau

¹³³ Cofnod y Trafodion, 6 Rhagfyr 2023, para 213

¹³⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

¹³⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

randdeiliad allweddol, Mind Cymru a Choleg Nyrsio Brenhinol Cymru, ill dau yn gryf o blaid ymestyn darpariaethau'r Ddeddf i leoliadau iechyd meddwl ar gyfer cleifion mewnol, gan ddadlau y byddai hyn yn gwella cyflwr gofal iechyd meddwl yng Nghymru yn ei hanfod.¹³⁶ Teimlai eraill, fodd bynnag, fod angen gwaith pellach i ddatblygu a phrofi'r dulliau perthnasol, ac i sicrhau bod y systemau TG angenrheidiol yn eu lle i gefnogi unrhyw estyniad i leoliadau pellach. Roedd y Gweinidog hefyd yn glir nad oedd yn cefnogi ymestyn y Ddeddf ar hyn o bryd.

145. Er ein bod yn ystyried barn y Gweinidog a'r rhanddeiliaid hynny nad oeddent yn teimlo bod yr amser yn iawn i ymestyn y ddeddfwriaeth, mae'n amlwg bod y Ddeddf wedi sicrhau manteision mewn lleoliadau 25B, yn enwedig o ran cynllunio'r gweithlu ac atebolrwydd. Gan hynny, credwn y dylai Llywodraeth Cymru a phartneriaid barhau i weithio tuag at gymhwyso egwyddorion y Ddeddf i leoliadau pellach, yn enwedig lleoliadau iechyd meddwl ar gyfer cleifion mewnol, o ystyried y gwaith sydd eisoes wedi'i wneud yn y meysydd hyn.

146. Gall gwneud newidiadau i ddeddfwriaeth fod yn broses hirfaith, ac mae'r Gweinidog wedi bod yn glir, yn hytrach nag ymestyn y Ddeddf, y byddai'n well ganddi ddefnyddio dulliau anneddfwriaethol eraill i sicrhau lefelau priodol o staff nyrsio yn y lleoliadau pellach hynny.

147. Rydym yn nodi'r dystiolaeth gan y Gweinidog a'r Prif Swyddog Nyrsio bod Offerynnau Lefelau Gofal Cymru drafft ar gyfer iechyd meddwl ac ymwelwyr iechyd wedi'u creu, a'u bod yn cael eu defnyddio a'u profi ar hyn o bryd gan fyrdau iechyd o dan adran 25A. Os mai dyma'r dull a ffeirir gan y Gweinidog, credwn ei bod yn ddyletswydd ar Lywodraeth Cymru i ddangos bod digon yn cael ei wneud heb fod angen deddfwriaeth bellach, a darparu tystiolaeth o hynny. Os na fydd y dull anneddfwriaethol hwn o sicrhau lefelau priodol o staff nyrsio yn arwain at ganlyniadau, credwn y dylai Llywodraeth Cymru edrych eto ar ymestyn y Ddeddf.

Argymhelliad 9. Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn o fewn 9 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn ar y defnydd o'r Offerynnau Lefelau Gofal Cymru drafft ar gyfer iechyd meddwl ac ymweliadau iechyd gan fyrdau iechyd, gan ddarparu gwerthusiad o sut y maent yn cyfrannu at ddatblygu gweithlu cynaliadwy a gwell gofal i gleifion yn y maes hwn.

148. Ymhellach, nodwn gynnig y Prif Swyddog Nyrsio i ddefnyddio Rhaglen Staff Nyrsio Cymru Gyfan i gomisiynu ymarferiad mapio o'r adnoddau eraill sydd ar

¹³⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, NS05, NS09

gael, ac i ddatblygu'r egwyddorion a'r canllawiau i sicrhau dull gweithredu cyson ledled Cymru. Credwn y dylid gwneud y gwaith hwn.

Argymhelliad 10. Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddefnyddio Rhaglen Staff Nyrsio Cymru Gyfan i gomisiynu ymarfer mapio o'r adnoddau eraill sydd ar gael ar gyfer cynllunio'r gweithlu, ac i ddatblygu'r egwyddorion a'r canllawiau i sicrhau dull gweithredu cyson wrth eu cymhwysu ledled Cymru.

A yw'r Ddeddf wedi ei diogelu at y dyfodol?

149. Gall sicrhau bod unrhyw ddeddfwriaeth wedi ei diogelu at y dyfodol fod yn her, ond mae hyn yn arbennig o wir mewn tirwedd fel y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, sydd wedi gweld newidiadau mor sylweddol, mewn cymaint o feysydd, dros y deng mlynedd diwethaf.

150. Ers cyflwyno'r Ddeddf, mae datblygiadau a gwelliannau mewn gwasanaethau iechyd a gofal yn golygu bod mwy o bwyslais bellach ar weithio aml-broffesiwn, gan sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu gan y person cywir, gyda'r sgiliau cywir, ar yr adeg gywir. Teimlai'r rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid y clywsom ganddynt, ac eithrio Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru, nad yw'r Ddeddf yn addas ar gyfer y dull hwn.

151. Roedd yn ddiddorol gennym glywed gan y Gweinidog am waith yr is-grŵp o fewn Grŵp Staff Nyrsio Cymru Gyfan i asesu'r effaith y mae'r Ddeddf yn ei chael ar waith aml-broffesiwn, a'r effaith y gallai modelau gwaith aml-broffesiwn sefydledig presennol ei chael ar fyrddau iechyd wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf. Nodwn fod disgwyl i'r grŵp gwblhau ei ddadansoddiad yn gynnar yn 2024 a hoffem weld canlyniadau'r gwaith hwnnw.

Argymhelliad 11. Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol rannu gyda'r Pwyllgor ganfyddiadau asesiad Grŵp Staff Nyrsio Cymru Gyfan o effaith y Ddeddf ar waith aml-broffesiwn.

Atodiad 1: Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd yr unigolion a'r sefydliadau canlynol dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar [wefan y Pwyllgor](#).

Cyfeirnod	Sefydliad
NS02	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
NS03	Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
NS04	Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
NS05	Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
NS06	Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre
NS07	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
NS08	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
NS09	Mind Cymru
NS10	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
NS11	Unigolyn
NS12	Addysg a Gwella Iechyd Cymru
NS13	Confederasiwn GIG Cymru
NS14	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
NS15	Prifysgol Southampton

Atodiad 2: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion canlynol dystiolaeth lafar i'r pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar [wefan y Pwyllgor](#).

Dyddiad	Enw a Sefydliad
19 Hydref 2023	<p>Helen Whyley, Cyfarwyddwr Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru</p> <p>Lisa Turnbull, Rheolwr Polisi, Materion Seneddol a Chysylltiadau Cyhoeddus Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru</p> <p>Jackie Davies, Cadeirydd Bwrdd Coleg Brenhinol Nyrsio Cymru</p> <p>Jennifer Winslade, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan</p> <p>Gareth Howells, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Phrofiad y Claf Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe</p> <p>Nicola Williams, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a Gwyddor Iechyd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre</p> <p>Lisa Llewelyn, Cyfarwyddwr Addysg Nyrsio a Gweithwyr Iechyd Proffesiynol Addysg a Gwella Iechyd Cymru</p> <p>Ruth Walker, Cyfarwyddwr Cyswllt (Arweinyddiaeth Nyrsio) Addysg a Gwella Iechyd Cymru</p> <p>Joanna Doyle, Cyfarwyddwr Cyswllt / Pennaeth Rhaglen Staff Nyrsio Cymru Gyfan</p> <p>Julie Rogers, Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol Addysg a Gwella Iechyd Cymru</p>
6 Rhagfyr 2023	<p>Eluned Morgan AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru</p>

Dyddiad	Enw a Sefydliad
	<p>Sue Tranka, Prif Swyddog Nyrso Cymru a Chyfarwyddwr Nyrso GIG Cymru Llywodraeth Cymru</p> <p>Gill Knight, Diogelwch Swyddogion Nyrso, Rheoleiddio a Datblygu Gwasanaethau Llywodraeth Cymru</p>